**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

**(LLWYBR CYD-DDEFNYDDIO DYFFRYN TYWI)**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL 2023**

# DATGANIAD O RESYMAU

**CYNNWYS**


1. Diffiniadau a Chyflwyniad
2. Disgrifiad o Dir y Gorchymyn, ei Leoliad a’i Ddefnydd Presennol
3. Yr Angen am y Cynllun
4. Y Cynllun
5. Y Cefndir Cynllunio
6. Yr Angen i Ddefnyddio Pwerau Prynu Gorfodol
7. Rhoi’r Cynllun ar Waith
8. Datganiadau, Polisïau a Fframweithiau Cenedlaethol a Rhanbarthol
9. Ystyriaethau Hawliau Dynol ac unrhyw Ystyriaethau Eraill
10. Ystyriaethau Arbennig
11. Ymgymerwyr Statudol
12. Materion Iawndal
13. Crynodeb
14. Y Gorchymyn, Map y Gorchymyn a Datganiad o Resymau
15. Gwrthwynebu neu Gefnogi’r Gorchymyn Prynu Gorfodol
16. Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus

Rhestr Dogfennau

## 1. DIFFINIADAU A CHYFLWYNIAD

1.1 Mae i'r Diffiniadau a ddefnyddir yn y Datganiad hwn yr ystyron canlynol:
Ystyr "Deddf 1976" yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
Ystyr "Deddf 1990" yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
Ystyr "Deddf 1981" yw Deddf Caffael Tir 1981
Ystyr "Deddf 1998" yw Deddf Hawliau Dynol 1998
Ystyr "Cyngor" yw Cyngor Sir Caerfyrddin
Ystyr "Sir" yw Sir Weinyddol Sir Gaerfyrddin
Ystyr "EIA" yw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
Ystyr "EIASO" yw Barn Gwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
Ystyr "ES" yw Datganiad Amgylcheddol
Ystyr "CDLl" yw Cynllun Datblygu Lleol
Ystyr "Gorchymyn" yw Gorchymyn Prynu Gorfodol (Llwybr Cyd-ddefnyddio Ffair-Fach i Felin-wen) Cyngor Sir Caerfyrddin 2023
Ystyr "Atodlen y Gorchymyn" yw'r atodlen o diroedd a hawliau sydd i'w caffael ac sy'n rhan o'r Gorchymyn
Ystyr "Tir y Gorchymyn" yw'r tir sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn
Ystyr "Map y Gorchymyn" yw'r map sy'n dwyn y teitl Gorchymyn Prynu Gorfodol (Llwybr Cyd-ddefnyddio Ffair-fach i Felin-wen) Cyngor Sir Caerfyrddin 2023
Ystyr "Llain" yw ardal benodedig o dir yn y Gorchymyn, y rhoddwyd rhif llain iddi
Ystyr "Hawliau" yw hawliau newydd sydd i'w caffael o dan y Gorchymyn
"Ystyr "Cynllun" yw adeiladu pob rhan o'r fath o'r Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig sy'n dal i fod heb ei hadeiladu at ddiben darparu ar gyfer traffig cerddwyr a beicwyr gan gynnwys adeiladu pontydd i gario hyn a'r holl waith ategol at hynny gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i greu amwynderau, ardaloedd mynediad ac ardaloedd lliniaru cynefinoedd
Ystyr "Safle" yw'r tir sydd ei angen i ddarparu ar gyfer y Cynllun gan gynnwys tir i hwyluso a galluogi'r gwaith o adeiladu'r Cynllun.
Ystyr "Llwybr Cyd-ddefnyddio" yw'r tir sy'n cynnwys hyd cyfan Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, darnau presennol o briffordd a gynhelir yn gyhoeddus ac ardaloedd o dir sydd eisoes wedi'u sicrhau i'w defnyddio gan gerddwyr a beicwyr.
Ystyr "ACA" yw Ardal Cadwraeth Arbennig
Ystyr "SoDdGA" yw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

1.2 Ar y diwrnod o Dwy Fil a Thair ar Hugain gwnaeth y Cyngor y Gorchymyn yn unol â phenderfyniadau'r Cyngor ar y 13eg o fis Mawrth, 2023

1.3 Caiff y Gorchymyn ei wneud o dan Adran 226(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, *Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976* a Deddf Caffael Tir 1981

1.4 Mae hyd a lled y tir y bwriedir ei gaffael drwy orfod wedi'i nodi yn Adran 2 isod ac fe'i disgrifir yn fwy penodol yn Atodlen y Gorchymyn ac fe'i dangosir ar Fap y Gorchymyn.

1.5 *Mae Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn galluogi'r Cyngor i gaffael hawliau newydd drwy orfod dros dir er mwyn gallu gwneud gwaith adeiladu a chynnal a chadw i wireddu a chynnal y Cynllun*

1.6 Pwrpas y Cyngor wrth geisio caffael Tir y Gorchymyn trwy bryniant gorfodol yw sicrhau bod y Cynllun arfaethedig yn cael ei wireddu sef y Cynllun y mae'r Cyngor yn hyderus y bydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y trigolion sy'n byw ar hyd y Safle a thu hwnt yn ogystal ag i'r rheiny sy'n ymweld â'r ardal ac yn gweithio yno.

1.7 Dyma Ddatganiad o Resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn yn unol â Phrynu Gorfodol yng Nghymru a 'The Crichel Down Rules (Fersiwn Cymru, 2020)' (Cyfeirnod Cylchlythyr 003/2019).

1.8 Mae'r Gorchymyn, fel y'i gwnaed, wedi cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW).

1.9 Mae Cylchlythyr Cyfeirnod 003/2019 paragraff 63 yn dynodi bod disgwyl i awdurdodau prynu ddarparu tystiolaeth eu bod wedi gwneud ymdrechion ystyrlon i gyd-drafod tra bod paragraff

62 yn cydnabod bod yna sefyllfaoedd lle mae’n briodol gwneud gorchymyn prynu gorfodol ar yr un pryd ag y ceisir prynu tir drwy gytundeb. Mae’r Cyngor yn fodlon bod ymdrechion rhesymol wedi’i gwneud i brynu’r buddiannau sy’n weddill drwy gytundeb preifat ac mae wedi gwneud y Gorchymyn i sicrhau’r holl fuddiannau sy’n ofynnol i alluogi’r Cynllun i gael ei wireddu. Bydd trafodaethau’n parhau fodd bynnag gyda pherchenogion y buddiannau perthnasol i geisio caffael eu tir drwy gytundeb.

1.10 Mae'r Cyngor yn cydnabod na ellir gwneud y Gorchymyn, a'i gadarnhau yn dilyn hynny, onid oes achos cryf er lles y cyhoedd (paragraff 53 o Gylchlythyr Cyfeirnod 003/2019) sy'n drech na’r hawliau preifat yn y tir y ceisir ei gaffael. Credir bod achos cryf yn bodoli yn yr achos hwn a manylir ar hynny yn Adrannau 3 a 6 o’r Datganiad hwn.

1.11 Ymhellach, mae paragraff 41 o Gylchlythyr Cyfeirnod 003/2019 yn nodi bod argaeledd cyllid yn ffactor perthnasol wrth benderfynu a ddylid cadarnhau Gorchymyn ai peidio.

1.12 Mae’r Cyngor yn fodlon fod cyllid ar gael a bod gobaith rhesymol y caiff y Cynllun ei weithredu. Rhoddir rhagor o fanylion ynglŷn â’r cyllid yn Adran 7 isod. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen rhoi caniatâd cynllunio ond nid yw'n gwybod am unrhyw resymau cynllunio pam y dylid atal hyn nac, unwaith y bydd y Gorchymyn yn cael ei gadarnhau, unrhyw rwystrau eraill i wireddu'r Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig.

## 2. DISGRIFIAD O DIR Y GORCHYMYN, EI LEOLIAD A’I DDEFNYDD PRESENNOL

2.1(a) Mae Tir y Gorchymyn sydd ei angen ar gyfer y Cynllun yn gorwedd o fewn y Sir ac wedi ei leoli i'r Dwyrain o Dref Caerfyrddin. Mae pen gorllewinol Tir y Gorchymyn gerllaw pen dwyreiniol y ffordd ddiddosbarth (U2183) sy'n arwain i Waith Concrit Abergwili ac mae'n ymestyn o'r pwynt hwn i gyfeiriad y dwyrain yn gyffredinol am tua 4.2 cilometr ar hyd llawr y dyffryn hyd at bentref Nantgaredig lle mae'n cwrdd â ffordd ddiddosbarth sy'n mynd heibio i Glwb Rygbi Nantgaredig hyd at y gyffordd â Heol yr Orsaf (B4310). Bydd rhan o'r Llwybr Cyd-ddefnyddio yn defnyddio hyd byr o bob un o'r priffyrdd cyhoeddus hyn. Oddi yno mae Tir y Gorchymyn yn parhau i gyfeiriad y dwyrain gan ddilyn, yn rhannol, lwybr sy'n cydffinio ag afon Tywi cyn terfynu mewn man ger Prif Ffordd yr A476 yn Ffair-fach, Llandeilo.

2.1(b) Mae maint Tir y Gorchymyn wedi’i ddangos ag ymyl goch ar Fap y Gorchymyn ac fe’i disgrifir yn fwy penodol yn Atodlen y Gorchymyn. Mae’n cwmpasu arwynebedd o 45.75 hectar (113 erw) ar hyd llwybr llinol tua phedair cilometr ar bymtheg pwynt degol dau dau (19.22 cilometr) o hyd ac mae'n eiddo i fwy nag un perchennog. Mae Tir y Gorchymyn yn cynnwys tir sy'n wastad yn bennaf gydag ychydig o lethrau ac sy'n cynnwys ardaloedd o dir pori a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pori neu ar gyfer tyfu cnydau i ddarparu porthiant gaeaf ar gyfer anifeiliaid ac mae'n cynnwys gwrychoedd a choed a phocedi bach o goetir llydanddail eang, llwybrau cyhoeddus (Cyf: 2/27, 41/1, 41/2, 41/6, 31/27, 42/1 a 44/3) sy'n croesi dros dir pori, llwybr trac rheilffordd hanesyddol, ffyrdd mynediad preifat ac afonydd a nentydd.

2.1(c) Mae'r tir sydd i'w gaffael at ddiben gwireddu'r Cynllun wedi'i leoli yn rhan isaf Dyffryn Tywi yn y Sir. Mae'n llinol ei natur ac yn dilyn afon Tywi yn fras o'r dwyrain i'r gorllewin ac mae'n cysylltu â Ffair-fach yn y dwyrain ac â Felin-wen yn y gorllewin. Mae'r Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig oddeutu un ar hugain (21) cilometr o hyd ac mae ei led yn amrywio ond heb fod yn llai na thri (3) metr o led ac mae rhan sylweddol o'r llwybr hwn yn cyfateb i lwybr yr hen linell reilffordd o Gaerfyrddin i Landeilo a arferai gael ei gynnal gan arglawdd o waith dyn a godwyd ar hyd llawr eang y dyffryn. Adeiladwyd yr hen reilffordd yn ystod y 19eg ganrif a chaewyd hi ym 1964. Mae seilwaith yr hen reilffordd yn dal yn ei le am lawer o'i hyd, gan gynnwys darnau sylweddol o arglawdd rheilffordd a rhai rhannau o hafnau.

2.1(d) Mae ffin ddwyreiniol Tir y Gorchymyn yn agos at ffin orllewinol y cae yn union i'r gorllewin o Rif 1 Llys yr Onnen, Ffair-fach. O'r fan hon mae'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol gan fynd heibio i ffin allanol tir Safle Ysgol Bro Dinefwr cyn parhau trwy ardal goediog a elwir yn Lovelodge Woods. Y tu hwnt i'r coetir mae Tir y Gorchymyn yn troi'n ôl yn dir pori a gaiff

ei amaethu ac eithrio dwy ardal fechan sy'n cwmpasu rhannau o draciau mynediad, un yn arwain at waith trin carthion Dŵr Cymru a'r llall yn arwain at eiddo a elwir Glan yr Afon. Ar ôl y trac mynediad diwethaf mae Tir y Gorchymyn yn dargyfeirio ar lwybr yr hen reilffordd o Gaerfyrddin i Landeilo, a chan eithrio gwyriadau byr dros dir pori ar Fferm Hendy a Fferm Pentrecwn mae'n parhau ar hyd y llinell reilffordd segur a grybwyllwyd uchod heibio i safle'r Gelli Aur Coleg Sir Gâr ac ymlaen i gyfeiriad hen adeilad gorsaf y Gelli Aur lle mae'r briffordd dosbarth III a gynhelir yn gyhoeddus yn torri ar ei draws (cyfeirnod C2145). â Y tu hwnt i ffin orllewinol y briffordd a gynhelir yn gyhoeddus mae Tir y Gorchymyn yna'n parhau ar lwybr yr hen reilffordd am tua 1.8 cilometr gan deithio trwy ardal goetir a elwir yn Riverbed Wood cyn dargyfeirio am bellter o tua 341 metr i dir pori ac yna ail-ymuno â'r hen reilffordd am tua 2 gilometr lle mae Ffordd-Dosbarth II B4297 yn torri ar ei thraws eto gerllaw hen adeilad Gorsaf Dryslwyn sydd bellach yn breswylfa breifat. O ochr orllewinol y B4297 mae tir y Gorchymyn yn parhau ar yr hen drac rheilffordd am tua 2.6 cilometr arall gan fynd drwy fferm Glantowy, ar ôl croesi Afon Gwynon yn gyntaf, a heibio hen adeilad gorsaf Llanarthne sydd bellach yn breswylfa cyn dod i ben ar bwynt tua 500 metr y tu hwnt i'r orsaf ddywededig. Mae Tir y Gorchymyn wedyn yn troi'n ôl yn dir pori am oddeutu 2.2 cilometr cyn croesi Afon Tywi o dir sy'n rhan o Bremenda Isaf i'r de o'r afon i Fferm Abercothi ar yr ochr ogleddol. O'r ochr hon mae'n croesi cae i gyfeiriad y gogledd ac yna'r gorllewin (gan gynnwys rhan o lwybr cyhoeddus Rhif 41/6) i ymuno â ffordd ddiddosbarth (Cyfeirnod U4448). Ychydig bellter i'r gorllewin o'r man hwn mae'r ffordd ddiddosbarth yn gwyro i gyfeiriad y gogledd-orllewin ac mae Tir y Gorchymyn yn parhau i gyfeiriad y gorllewin trwy ail-ymuno â llwybr y rheilffordd segur. Mae'r hen linell reilffordd a Thir y Gorchymyn sy'n cyfateb iddi yn ymestyn hyd at Afon Cothi lle mae'n rhaid adeiladu strwythur pont, fel yn achos yr holl fannau croesi afon blaenorol, cyn parhau tuag at bentref Nantgaredig a'r Ffordd Dosbarth II B4310 a elwir yn Heol yr Orsaf, Nantgaredig. Ychydig cyn cysylltu â Heol yr Orsaf mae Tir y Gorchymyn yn cynnwys darn byr o ymyl glaswelltog dan berchnogaeth breifat gerllaw ffordd breifat. Tua 85 metr i'r de o'r gyffordd lle mae'r ardal o ymyl laswelltog yn ffinio â Heol yr Orsaf, mae Tir y Gorchymyn yn parhau o ochr orllewinol Heol yr Orsaf dros dir pori a reolir gerllaw gwrych cae Maesydderwen sy'n arwain ar Ffordd Ddiddosbarth (Cyfeirnod U2178) am bellter byr. Lle mae'r ffordd ddiddosbarth yn dod i ben mae Tir y Gorchymyn yn troi'n ôl i hyd o ffordd fynediad breifat sy'n arwain tuag at eiddo preswyl a elwir yn 'y Folly' cyn dychwelyd i dir pori a reolir sy'n cynnwys rhan o lwybr troed cyhoeddus Rhif 41/1 sy'n arwain at lwybr troed cyhoeddus 2/27. Mae Tir y Gorchymyn yn y lleoliad hwn yn gyfochrog ag Afon Tywi ac mae'n ymestyn am tua 1.4 cilometr, gan ddilyn yr un llwybr i raddau helaeth â llwybr troed 2/27, cyn ail-gysylltu â llwybr yr hen reilffordd yn fferm Danyrallt. Nid yw arglawdd y rheilffordd yno bellach yn y lleoliad hwn a chaiff y cae ei reoli at ddibenion amaethyddol ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'n ymestyn at ran o'r llwybr cyd-ddefnyddio sydd wedi'i gwblhau yn Felin-wen ac yn ffinio â hwnnw. Mae'r rhan orffenedig hon sydd gerllaw maes parcio Clwb Pysgota Caerfyrddin ym mhentref Felin-wen tua 230 metr o hyd, yn dri (3) metr o led ac wedi'i gorffen ag arwyneb tarmac gwyrdd. O hynny ymlaen mae Tir y Gorchymyn yn cynnwys tir agored a leolir y tu ôl i Garej Felin-wen sy'n parhau fel tir pori a reolir am 1 cilometr arall cyn ymuno â'r ffordd ddiddosbarth (U2183) rhwng Fferm Fronun a Sŵn y Coed ychydig i'r gorllewin o bentref Felin-wen.

2.2 Mae'r Cyngor, fel rhan o'r broses o gyflwyno'r cynllun arfaethedig, wedi nodi offer a strwythurau'r ymgymerwyr statudol fel Western Power Distribution, Openreach Limited, Mainline Pipelines Limited, Dŵr Cymru Welsh Water a National Grid plc a fydd yn cael eu diogelu, eu hamnewid, eu dargyfeirio a'u gwella yn ôl yr angen.

2.3 Yn ogystal â'r tir sy'n ofynnol, mae gweithredu'r Gorchymyn yn gofyn am gaffael hawliau newydd dros Leiniau Rhifau 2, 7, 16/b, 16/c, 17/b, 18/a, 18/c, 18/f, 18/g, 19, 25/a, 25/c, 32/a a 36/a sy'n cynnwys (ymhlith pethau eraill) tir pori, traciau mynediad, gwelyau afonydd ac argloddiau. Mae'n ofynnol i'r hawliau sicrhau hawl mynediad i'r rhan hon o Dir y Gorchymyn i alluogi'r Cynllun i gael ei adeiladu (gan gynnwys pontydd a hawliau'r cyhoedd i basio dros y rhain) ac wedi hynny mynediad addas i alluogi'r Llwybr Cyd-ddefnyddio i gael ei gynnal a'i

gadw'n briodol gan gynnwys, lle bo'n briodol, lleoli cwrt dros dro ar gyfer offer, peiriannau a deunyddiau. Bydd llain rhif 32/a yn cael ei defnyddio fel mynediad brys ar adegau o lifogydd yn unig. Mae Atodlen y Gorchymyn yn rhoi manylion llawn am yr hawliau sydd i'w caffael gyda golwg ar y Lleiniau perthnasol; fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i geisio caffael yr hawliau trwy gytundeb.

2.4 Defnydd cyfredol o'r tir

Mae Tir y Gorchymyn yn cynnwys yn bennaf dir mewn defnydd amaethyddol fel rhan o ddaliadau amaethyddol ehangach, dyfrffordd sydd â budd hawliau pysgota, ac ardaloedd coetir ynghyd â rhannau o draciau a ddefnyddir i arfer hawliau saethu. Mae rhannau o'r trac hefyd yn gweithredu fel mynediad i dir cyfagos.

Mae topograffi'r rhanbarth yn waelod dyffryn afon gwastad llydan, gydag afon ddolennog, tua 10 metr uwchlaw'r datwm ordnans. Mae'r bryniau ar y ddwy ochr yn cyrraedd uchder cyffredin o tua 150 metr ar yr ochr ogleddol a 200 metr ar ochr ddeheuol y dyffryn.

## 3. YR ANGEN AM Y CYNLLUN

### 3.1 Cefndir


3.1.1 Cyfeiriwyd at y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn flaenorol fel 'Llwybr Beicio Dyffryn Tywi’. Mae Dyffryn Tywi Isaf yn ymestyn o'r Dwyrain i'r Gorllewin rhwng Llandeilo a Chaerfyrddin. Mae Coridor Trafnidiaeth Dyffryn Tywi - Arfarniad Opsiwn WelTAG (WelTAG Cam 1, Awst 2013) (Dogfen Rhif 1), ac Adroddiad Terfynol Cam 2 WelTAG Llwybr Dyffryn Tywi Chwefror 2021 (Dogfen Rhif 2), yn nodi diffygion sylweddol mewn seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy presennol yn Nyffryn Tywi, gyda buddion posibl sylweddol i'w cyflawni trwy gyflwyno'r Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig. Mae'r rheilffordd segur rhwng Felin-wen (a leolir 3 milltir i'r dwyrain o Dref Caerfyrddin) a Ffair-fach (ger Llandeilo) bellach yn cael ei hystyried fel y llwybr aliniad craidd fel y nodir yn 'Astudiaeth Ddichonoldeb Coridor Trafnidiaeth Dyffryn Tywi Ionawr 2014' (Dogfen Rhif 3), a gynhaliwyd gan Atkins Consultants yn 2014.

3.1.2 Mae'r astudiaethau dichonoldeb a gynhaliwyd hyd yma (fel y cyfeirir atynt yng Ngham 2 WelTAG Llwybr Dyffryn Tywi - Adroddiad Asesiad Effaith Terfynol Chwefror 2021 (Dogfen Rhif 4), a WelTAG Cam 2 Llwybr Dyffryn Tywi Chwefror 2021) yn cyfeirio at y buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys buddion iechyd, twristiaeth a hamdden sy'n gysylltiedig â'r Cynllun ac o ganlyniad y Llwybr Cyd-ddefnyddio cyfan. Mae Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Llesiant Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio Arfaethedig (Hydref 2022) a baratowyd gan WSP (Dogfen Rhif 5), yn dangos sut, os cadarnheir y Gorchymyn fel bod modd gwireddu'r cynllun, y bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu at welliannau i lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

3.1.3 Byddai'r Llwybr Cyd-ddefnyddio, a fyddai'n darparu llwybr cerdded a beicio diogel rhwng Caerfyrddin a Llandeilo gan wneud defnydd helaeth o'r llinell reilffordd segur sy'n rhedeg ar hyd Dyffryn Tywi fel y nodir yn yr adroddiadau (Adroddiadau WelTAG Cam 1 a 2). Tynnwyd sylw at nifer o aneddiadau bach, canolig a mawr ochr yn ochr ag atyniadau twristaidd, megis Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Gerddi Aberglasne, Parc Dinefwr, Castell Dryslwyn, Canolfan Beicio Mynydd Brechfa a Choleg Amaethyddol y Gelli Aur, a fyddai'n elwa o well hygyrchedd drwy'r Cynllun.

3.1.4 Mae Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu at greu rhwydwaith helaeth o lwybrau ac mae ganddo'r potensial i'w gynnwys fel rhan o lwybr ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol trwy wella Llwybr 47 y Rhwydwaith Beiciau Cenedlaethol (NCN 47) i'r dwyrain o Abergwili (yn amodol at drafodaeth bellach a chytundeb gyda Sustrans). Mae Ffigur 3.1 yn dangos y bwlch

presennol yn NCN 47 (llinell las doredig).  Unwaith y bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi wedi'i gwblhau, gallai hyn gau'r bwlch coll hwn yn y rhwydwaith presennol.




***NCN 47 (Ffynhonnell: Sustrans[1])***

Byddai'r llwybr o Gaerfyrddin hefyd yn annog pobl i fynd ar reilffordd Calon Cymru yn Ffair-fach a Llandeilo. Ceir cysylltiadau agos hefyd ag Amgueddfa Caerfyrddin yn Abergwili, gyda chysylltiadau pellach â gorsaf Rheilffordd Gwili gerllaw Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru yng Nglangwili hefyd yn cael eu harchwilio. Gellir creu cysylltiadau hefyd â'r fasnach lletygarwch leol gan gynnwys gwestai, llety gwely a brecwast, bwytai a thafarndai sy'n cynyddu masnach yn yr ardal.

### 3.2 Amcanion y Cynllun

3.2.1 Amcan y Cynllun yw darparu llwybr cyd-ddefnyddio newydd, tua 21km o hyd (o Abergwili i Ffair-fach) sy'n rhedeg ar hyd llinell reilffordd segur am y rhan fwyaf o'i hyd. O dan adran 226(1)(a) o Ddeddf 1990, mae gan awdurdod lleol y pŵer, ar gael ei awdurdodi i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, i gaffael trwy orfod unrhyw dir yn ei ardal os yw'n credu y bydd y caffaeliad yn hwyluso'r gwaith o wireddu datblygiad, ailddatblygiad neu welliant ar dir neu mewn perthynas â thir.
Ni ddylai'r awdurdod arfer y pŵer o dan adran 226(1)(a) o Ddeddf 1990 oni bai ei fod yn credu bod y datblygiad, yr ailddatblygiad neu'r gwelliant yn debygol o gyfrannu at gyflawni unrhyw un neu ragor o'r gwrthrychau a ganlyn:

(a) hyrwyddo neu wella llesiant economaidd ei ardal;
(b) hyrwyddo neu wella llesiant cymdeithasol ei ardal; a
(c) hyrwyddo neu wella llesiant amgylcheddol ei ardal.

Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn gwella ac yn ymestyn y cynnyrch twristiaeth presennol yn Sir Gaerfyrddin wledig gan arwain at fwy o wariant ymwelwyr o fewn yr ardal a chyfleoedd gwaith newydd o fewn y sector ynghyd â darparu cyswllt teithio llesol allweddol i'r Sir.

### 3.3 Yr angen am y Cynllun

3.3.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod na ellir gwneud gorchymyn prynu gorfodol onid oes achos cryf er lles y cyhoedd sy'n drech na’r hawliau preifat yn y tir sydd i'w gaffael. Ystyrir bod yma achos

[1] https://www.sustrans.org.uk/find-a-route-on-the-national-cycle-network/route-47/

cryf ar y sail, heb y Cynllun, na fydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio a ariennir yn cael ei sicrhau ac felly'n cael ei wireddu. Y Llwybr Cyd-ddefnyddio sy'n mynd i gael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y rhan hon o Ddyffryn Tywi rhwng Caerfyrddin a Llandeilo ac ymhell tu hwnt. Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol defnyddio'r pŵer prynu gorfodol yn adran 226(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn caffael tir sy'n addas ar gyfer y Cynllun ac sy'n ofynnol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni oherwydd bydd gweithredu hynny'n cyfrannu at yr amcanion a ddisgrifir ynddo.

3.3.2 Mae arolygon a gynhaliwyd fel rhan o broses WelTAG Cam 2 Llwybr Dyffryn Tywi yn dangos cefnogaeth aruthrol gan y cyhoedd ar gyfer y llwybr cyd-ddefnyddio hwn. Ymatebodd cyfanswm o 1690 o aelodau'r cyhoedd i'r holiadur ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 gyda 79% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn gefnogol iawn i'r cynnig a 12% arall yn dweud eu bod yn eithaf cefnogol. Yn yr arolwg gyda 'phobl leol' a gynhaliwyd yn 2019 fel rhan o 'Adroddiad Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig, Hydref 2022', tynnwyd sylw at y ffaith fod 46% o ymatebwyr wedi dweud y byddai 'llwybrau oddi ar y ffordd' yn eu hannog i gerdded/beicio yn fwy rheolaidd ac roedd 29% wedi dweud y byddai 'llwybrau a reolir yn rheolaidd' yn eu hannog i wneud hynny. Ymhellach, roedd 78% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r llwybr arfaethedig ac o'r rhain, dywedodd 96% y byddent yn defnyddio'r llwybr arfaethedig ac roedd 57% yn credu y byddai'r llwybr yn eu helpu i wneud llai o ddefnydd o geir. Cynhaliwyd arolwg codi dwylo gan athrawon mewn tair ysgol uwchradd yn nalgylch Dyffryn Tywi ym mis Ebrill a mis Mai 2019, a chafwyd ymatebion gan 1859 o ddisgyblion. Dangosai'r arolwg bod dros chwarter y disgyblion (27%) a holwyd yn dweud y byddai Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig Dyffryn Tywi yn eu hannog i gerdded/beicio i'r ysgol.

Mae'r canlyniadau hyn o'r arolwg yn dangos cefnogaeth gref i'r llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig, gyda thebygolrwydd uchel y bydd hyn yn esgor ar lawer o ddefnyddwyr y llwybr yn y dyfodol.

3.3.3 Mae Tir y Gorchymyn yn cynrychioli'r isafswm sydd ei angen i wireddu'r Cynllun ac felly'r Llwybr Cyd-ddefnyddio. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r angen i gynnwys pob parsel o dir a phob hawl newydd o fewn tir y Gorchymyn. Heb berchnogaeth a rheolaeth ar holl Dir y Gorchymyn nid yw'n bosibl gwireddu'r Cynllun ac felly'r Llwybr Cyd-ddefnyddio fel y cynigir ar hyn o bryd.

## 3.4 Y cyfiawnhad dros ddefnyddio pwerau llesiant S226 (1) (a)

### 3.4.1 Buddion Llesiant Economaidd

Cynhaliodd yr ymgynghorwyr WSP arfarniad economaidd o'r Cynllun ar ran y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018 ac mae wedi'i ddiweddaru'n rheolaidd, gyda'r fersiwn ddiweddaraf wedi'i chyhoeddi ym mis Hydref 2022 (Llwybr Dyffryn Tywi, Achos Busnes – Diweddariad 2022, WSP) (Dogfen Rhif 6). Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno effeithiau adeiladu ac effeithiau gweithredol ar yr economi. Mae'r effeithiau adeiladu yn sylweddol (gyda swyddi ychwanegol a gwerth ychwanegol gros yn cael eu cefnogi). Bydd yr effeithiau gweithredol hefyd yn sylweddol ac yn digwydd yn flynyddol wrth symud ymlaen. Caiff yr effeithiau adeiladu a'r effeithiau gweithredol a gyflwynir yn yr Achos Busnes uchod eu crynhoi fel a ganlyn:

<u>Effeithiau Adeiladu</u>

Bydd y buddion canlynol yn codi:

- Swyddi adeiladu a gefnogir (cyflogaeth uniongyrchol): Cyfwerth ag Amser Llawn – 202
- Swyddi adeiladu anuniongyrchol a gefnogir: 52
- Swyddi adeiladu wedi'u hysgogi a gefnogir: 25
- CYFANSWM Y SWYDDI A GEFNOGIR: 279
- CYFANSWM EFFAITH Gwerth Ychwanegol Gros: £13,880,749
- Gwerth Ychwanegol Gros A GAIFF EI WARIO YN YR ARDAL LEOL: £3,608,995

Effeithiau Gweithredol

Caiff yr effeithiau 'gweithredol' ar yr economi a amlinellir yn Llwybr Dyffryn Tywi, Achos Busnes – Diweddariad 2022, WSP eu cyflwyno mewn termau blynyddol yn y Tabl canlynol:

***Tabl o'r Effeithiau Gweithredol a Ragwelir***

| Gweithgaredd | Amcangyfrif Refeniw y Flwyddyn |
|---|---|
| Buddion gwario ychwanegol yn ystod y dydd | **£2.4 miliwn** |
| Buddion gwario ychwanegol dros nos (gyda gwasanaeth) | **£711,000** |
| Buddion gwario ychwanegol dros nos (heb wasanaeth) | **£1.3 miliwn** |
| Buddion gwario ychwanegol wrth gymudo | **£119,000** |
| Effeithiau trosiant busnes* | **£2 miliwn** |
| Effeithiau Gwerth Ychwanegol Gros ychwanegol* | **£2.9 miliwn** |

* *Mae effeithiau trosiant busnes ac effeithiau Gwerth Ychwanegol Gros ychwanegol yn ddau ddull o gyfrifo effeithiau ychwanegol ac ni ddylid eu hadio at ei gilydd gan y byddai hyn yn arwain at gyfrif dwbl.*

** *Mae'r holl fuddion a nodir uchod yn symiau blynyddol a fydd yn cronni bob blwyddyn yn ystod y cyfnod arfarnu achosion busnes. Tybir bod hyn yn 30 mlynedd.*

**Ffynhonnell:** Llwybr Dyffryn Tywi, Achos Busnes – Diweddariad 2022, WSP ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin

Bydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio hwn yn darparu mynediad diogel, deniadol a fforddiadwy, i'r rheiny sy'n byw yn Nyffryn Tywi a thu hwnt, i gyfleoedd cyflogaeth, addysg, iechyd, hamdden ac adwerthu drwy feicio neu ar droed yng Nghaerfyrddin a Llandeilo, yn ogystal â darparu cyswllt rhwng aneddiadau gwledig presennol na fyddai pob un ohonynt ar gael i'r rheiny nad oes ganddynt fynediad i gerbyd modur preifat. Tua £3,556 yw cost flynyddol gyfartalog bod yn berchen ar gar a'i redeg yn y DU[2]. Mae'r costau rhedeg blynyddol ar gyfer beic rhwng Caerfyrddin a Llandeilo tua £396[3], sy'n sylweddol rhatach na'r costau o fod yn berchen ar gar a'i redeg. Drwy ddarparu dull fforddiadwy o deithio i addysg a chyflogaeth, mae'r cynllun hwn yn cyfrannu at leihau lefelau tlodi gwledig, gan dorri'r cylch rhwng costau trafnidiaeth a mynediad at gyflogaeth.

Mae mynediad at addysg a chyflogaeth, ynghyd â heriau arallgyfeirio a chreu cynigion cyflogaeth newydd mewn cymunedau gwledig, yn rhwystrau sylweddol a fyddai'n golygu newid amgylchiadau i bobl economaidd anweithgar mewn ardaloedd gwledig. Mae'r cynllun hwn yn darparu modd o gael mynediad at waith sy'n bodoli eisoes yn Llandeilo a Chaerfyrddin, ond bydd hefyd yn gatalydd ar gyfer cyfleoedd newydd o fewn y cymunedau gwledig yn gysylltiedig â thwristiaeth, lletygarwch a threftadaeth. Mae Tabl 3.1 yn dangos effaith buddion twristiaeth a lletygarwch ar gyfer y Llwybr Cyd-ddefnyddio gydag amcangyfrifon o fuddion gwario ychwanegol yn ystod y dydd o £2.4 miliwn y flwyddyn, buddion gwario ychwanegol dros nos (gyda gwasanaeth) o £711,000 y flwyddyn a buddion

[2] https://www.nimblefins.co.uk/cheap-car-insurance/average-cost-run-car-uk

[3] Cyculator – Cyfrifiannell Cost Cymudo | Halfords UK

gwario ychwanegol dros nos (heb wasanaeth) o £1.3 miliwn[4] y flwyddyn. Bydd y gwariant ychwanegol hwn o fewn yr economi leol yn arwain at gyfleoedd gwaith newydd i gymuned Dyffryn Tywi.

### 3.5 Buddion Llesiant Cymdeithasol

Bydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn darparu nifer o fuddion cymdeithasol gan gynnwys:

3.5.1 Mwy o fuddion diogelwch i gerddwyr a beicwyr trwy ddarparu Cyfleuster Cyd-ddefnyddio pwrpasol. Ar hyn o bryd mae'r llwybr mwyaf uniongyrchol rhwng Llandeilo/Ffair-fach a Chaerfyrddin naill ai ar hyd Ffordd Dosbarth II B4300 neu Gefnffordd yr A40. Mae llawer o'r ffyrdd hyn yn barthau terfyn cyflymder cenedlaethol (60mya), gyda darnau cyfyngedig o droedffordd. Mae'r elusen diogelwch ffyrdd genedlaethol 'Brake' yn tynnu sylw at y ffaith fod gan "ffyrdd gwledig dair gwaith y perygl o ddamwain angheuol i feicwyr (gan gynnwys beiciau modur a beiciau pedal)". Yn ogystal, mae'r Labordy Ymchwil Trafnidiaeth wedi darganfod bod 30% o farwolaethau cerddwyr yn digwydd ar ffyrdd gwledig, sy'n tynnu sylw at y perygl o gerdded a beicio ar hyd ffyrdd gwledig[5].

3.5.2 Bydd adeiladu'r Llwybr Cyd-ddefnyddio yn gwella amwynderau i gerddwyr lleol (gan gynnwys y rheiny sy'n cerdded i'r ysgolion cynradd ac uwchradd lleol ac oddi yno) a beicwyr. Cynhaliwyd arolwg codi dwylo gan athrawon mewn tair ysgol uwchradd yn nalgylch Dyffryn Tywi ym mis Ebrill a mis Mai 2019, a chafwyd ymatebion gan 1859 o ddisgyblion. Dangosai'r arolwg bod dros chwarter y disgyblion (27%) a holwyd yn dweud y byddai Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig Dyffryn Tywi yn eu hannog i gerdded/beicio i'r ysgol[6].

3.5.3 Bydd y defnydd o'r cyfleoedd Teithio Llesol a ddarperir gan y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn arwain at well iechyd meddwl ac iechyd corfforol i'r boblogaeth. Mae'r cyfraddau clefyd cardiofasgwlaidd (CVD) yn Sir Gaerfyrddin yn 334.2 fesul 100,000 o bobl - sy'n uwch na chyfartaledd Cymru sef 289.7[7]. Mae Cycling UK yn gwneud cymhariaeth rhwng potensial gweithgareddau corfforol megis beicio, i helpu i frwydro yn erbyn clefyd cardiofasgwlaidd, ac mae hefyd yn dweud bod "beicio i'r gwaith yn gysylltiedig â risg is o 45% o ddatblygu canser, a risg is o 46% o glefyd cardiofasgwlaidd o gymharu â chymudo mewn car neu drafnidiaeth gyhoeddus"[8]. Mae dogfen Iechyd Cyhoeddus Cymru, 'Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol', a gyhoeddwyd yn 2018, yn amlinellu bod bod yn egnïol yn gorfforol o fudd i iechyd unigolion a'r boblogaeth ac yn lleihau'r risgiau o ordewdra a chyflyrau cronig, gan ddweud bod 'anweithgarwch wedi costio £35 miliwn i'r GIG yng Nghymru yn 2015'. Nodwyd mai cerdded a beicio yw'r 'buddsoddiad gorau' i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ac amcangyfrifir y gall byw mewn cymdogaeth sy'n gyfeillgar i weithgarwch ddarparu rhwng 32% a 59% o'r 150 munud o weithgaredd corfforol wythnosol sy'n cael ei argymell i oedolion er mwyn iddynt gynnal iechyd da[9].

3.5.4 Bydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn darparu modd cost-effeithiol i gael mynediad at wasanaethau a chyfleoedd, gan fynd i'r afael felly â thlodi gwledig, lle achosir hynny gan ddiffyg opsiynau trafnidiaeth. Roedd Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2021 yn amlinellu fod bron i draean o blant Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi,

---

[4]Llwybr Dyffryn Tywi, Achos Busnes – Diweddariad 2022, WSP ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin

[5] Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Llesiant Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio Arfaethedig, Hydref 2022' ac Adroddiad Terfynol WelTAG Cam 2 Llwybr Dyffryn Tywi Chwefror 2021

[6] Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Llesiant Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio Arfaethedig, Hydref 2022' ac Adroddiad Terfynol WelTAG Cam 2 Llwybr Dyffryn Tywi Chwefror 2021

[7] Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Llesiant Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio Arfaethedig, Hydref 2022' ac Adroddiad Terfynol WelTAG Cam 2 Llwybr Dyffryn Tywi Chwefror 2021

[8] Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Llesiant Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio Arfaethedig, Hydref 2022' ac Adroddiad Terfynol WelTAG Cam 2 Llwybr Dyffryn Tywi Chwefror 2021

[9]Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ebrill 2018 https://phwwhocc.co.uk/resources/creu-lleoedd-a-gofod-iachach-ar-gyfer-y-genhedlaeth-bresennol-a-chenedlaethaur-dyfodol/?lang=cy

gyda'r cynnydd mewn costau byw ar draws y DU yn gwthio mwy o deuluoedd mewn gwaith i brofi tlodi a chyda thlodi mewn gwaith yn dod yn fwy o broblem o fewn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (PPIW) yn disgrifio tlodi yn siroedd gwledig Cymru (sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin) fel 'Problem Gudd', gan nodi diffyg trafnidiaeth gyhoeddus a mynediad gwael at wasanaethau fel cyfranwyr allweddol[10]. Mae llawer o'r wardiau y mae'r llwybr arfaethedig yn mynd trwyddynt yn cael eu cyfrif ymhlith y 10% sydd fwyaf difreintiedig yng Nghymru o safbwynt lefel y mynediad at wasanaethau[11]. Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi felly'n helpu i frwydro yn erbyn hyn, gan fod teithio llesol yn darparu opsiwn mwy fforddiadwy a hygyrch i bobl heb fynediad at gar.

3.5.5 Mwy o gyfle i deithio drwy ddulliau cynaliadwy, gan annog symudiad oddi wrth ddibyniaeth ar gerbydau modur. Bydd y llwybr yn cynnig cyswllt i gymudwyr rhwng y ddwy ganolfan allweddol sef Caerfyrddin a Llandeilo/Ffair-fach y gellir ei deithio o fewn awr ar gefn beic.

## 3.6 Buddion Llesiant Amgylcheddol

3.6.1 Mae Buddion Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig yn cynnwys:
Gall newid dulliau teithio o ddefnyddio car preifat i ddulliau teithio llesol ar gyfer teithiau lleol wella llygredd aer a sŵn yn Nyffryn Tywi. Mae'r A483 drwy ganol Llandeilo (o gyffordd yr A476 Ffair-fach i gyffordd yr A40) wedi'i dynodi'n Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA). Mae Ardal Rheoli Ansawdd Aer ychwanegol ar waith yng Nghaerfyrddin hefyd. Byddai Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cynnig cysylltiadau rhwng y ddwy ganolfan allweddol sef Caerfyrddin a Llandeilo/Ffair-fach y gellir ei deithio o fewn awr ar gefn beic. Byddai felly'n helpu i fynd i'r afael â materion ansawdd aer o fewn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer a helpu i gyflawni cynllun Llywodraeth Cymru -Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon 2 (2021–25) (Dogfen Rhif 7) (e.e. lleihau'r galw a newid dulliau teithio: Polisi 31 – Cynyddu cyfran dull teithio llesol o'r gyfran amcangyfrifedig bresennol, sef 27% i 33% erbyn 2030 ac o leiaf 35% erbyn 2040[12]).

3.6.2 Gallai llwybr cyd-ddefnyddio 21 cilometr o hyd drwy gefn gwlad Sir Gaerfyrddin ganiatáu i'r rheiny sydd ar hyn o bryd yn teithio ar hyd ffyrdd A a B mewn cerbydau modur neu ar drafnidiaeth gyhoeddus gysylltu â byd natur ar hyd eu taith. Bydd y mynediad cynyddol hwn i'r Safle hwn o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth o fyd natur a pharch tuag ato gan drigolion lleol ac ymwelwyr, hen ac ifanc, a gallai hyn arwain at fuddion ffitrwydd ac iechyd meddwl i bawb.

**<u>Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 003/019</u>**

Mae Rhan 2 Adran A o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 003/019 yn amlinellu'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at hyrwyddo neu wella llesiant. Byddai Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cefnogi llawer o'r rhain fel yr amlinellir yn Nhabl 3.2.

***Tabl Rhan 2 Adran A o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 003/019 – Ffactorau Llesiant a gefnogir gan Lwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi.***

| Rhan 2 Adran A (Cylchlythyr 003/019) Ffactorau Llesiant | Sut y caiff y ffactor ei gefnogi gan Lwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi |
|---|---|
| (a) Ffactorau economaidd megis argaeledd swyddi addas ac o ansawdd uchel, mesurau i annog busnesau bach lleol, cysylltiadau trafnidiaeth effeithlon ac effeithiol, dysgu gydol | • Darparu seilwaith newydd – 21 cilometr o hyd (o Abergwili i Ffair-fach)<br>• Disgwylir i'r gwaith o adeiladu'r llwybr gefnogi 202 o swyddi adeiladu (cyflogaeth |

[10] Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Llesiant Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio Arfaethedig, Hydref 2022' ac Adroddiad Terfynol WelTAG Cam 2 Llwybr Dyffryn Tywi Chwefror 2021
[11] Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Llesiant Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio Arfaethedig, Hydref 2022' ac Adroddiad Terfynol WelTAG Cam 2 Llwybr Dyffryn Tywi Chwefror 2021
[12] Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2 (2021–25), Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| oes, hyfforddiant a datblygu sgiliau, darparu seilwaith a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd | uniongyrchol), 52 o swyddi adeiladu anuniongyrchol, a 25 o swyddi adeiladu wedi'u hysgogi (cyfanswm o 279)[13].<br>• Gallai'r gwaith o adeiladu'r llwybr greu cyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros lleol o £13.8 miliwn, ynghyd â Gwerth Ychwanegol Gros o £3.6 miliwn yn cael ei wario yn yr ardal.[14]<br>• Rhagolygon cadarnhaol effeithiau economaidd 'gweithredol' megis 'manteision gwario ychwanegol<br>• yn ystod y dydd' o £2.4 miliwn ac effeithiau 'trosiant busnes' o £2 filiwn.<br>• Cyfleoedd datblygu busnes ar hyd y llwybr ei hun e.e. llogi beiciau ac e-feiciau, gweithgareddau hamdden a chaffis.<br>• Byddai'r llwybr yn cynnig cyswllt trafnidiaeth effeithlon, effeithiol a rhatach gan ddarparu mynediad ar gyfer y rheiny sydd heb gar preifat i gyfleoedd cyflogaeth ledled Dyffryn Tywi. |
| (b) Ffactorau cymdeithasol megis hyrwyddo tai fforddiadwy ac o ansawdd da; cymunedau diogel; anogaeth y sector gwirfoddol; gofalu am anghenion plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed; mynediad i'r celfyddydau neu gyfleoedd hamdden; mynediad i addysg. | • Byddai'r Llwybr Cyd-ddefnyddio yn darparu mynediad i gyfleoedd celfyddydol, hamdden a thwristiaeth ar hyd y llwybr<br>• Byddai'r Llwybr Cyd-ddefnyddio yn darparu mynediad i addysg (Cynhaliwyd arolwg codi dwylo gan athrawon mewn tair ysgol uwchradd yn nalgylch Dyffryn Tywi ym mis Ebrill a mis Mai 2019, a chafwyd ymatebion gan 1859 o ddisgyblion. Dangosai'r arolwg bod dros chwarter y disgyblion (27%) a holwyd yn dweud y byddai Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig Dyffryn Tywi yn eu hannog i gerdded/beicio i'r ysgol)[15]<br>• Mae annog pobl ifanc i feicio a sefydlu arferion teithio cynaliadwy hirdymor o fudd i iechyd gydol oes. Mae'r Llwybr Cyd-ddefnyddio yn darparu cyfleuster diogel i'r bobl ifanc feicio yn ddirwystr. |
| (c) Ffactorau sy'n gysylltiedig ag iechyd megis hyrwyddo iechyd corfforol, cymdeithasol a meddyliol da a datblygu a hyrwyddo polisïau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd, yn enwedig ar anghydraddoldebau iechyd. | • Bydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn annog mathau mwy iach a llesol o drafnidiaeth i hyrwyddo iechyd corfforol, cymdeithasol a meddyliol da (dywed Cycling UK fod "beicio i'r gwaith yn gysylltiedig â risg is o 45% o ddatblygu canser, a risg is o 46% o glefyd |

[13] Llwybr Dyffryn Tywi, Achos Busnes – Diweddariad 2022, WSP (Hydref 2022)
[14] Llwybr Dyffryn Tywi, Achos Busnes – Diweddariad 2022, WSP (Hydref 2022)
[15] Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Llesiant Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio Arfaethedig, Hydref 2022' ac Adroddiad Terfynol WelTAG Cam 2 Llwybr Dyffryn Tywi Chwefror 2021

| | |
|---|---|
| | cardiofasgwlaidd o gymharu â chymudo mewn car neu drafnidiaeth gyhoeddus)[16].<br>• Bydd cydraddoldeb iechyd yn cael ei hyrwyddo gan y bydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn rhad ac am ddim i bawb ei ddefnyddio.<br>• Buddion llesiant ymarfer corff a bod yn 'agos at fyd natur'. |
| Rhan 2 Adran A (Cylchlythyr 003/019) Ffactorau Llesiant | Sut y caiff y ffactor ei gefnogi gan Lwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi |
| (d) Ffactorau amgylcheddol megis argaeledd aer glân, dŵr glân, strydoedd glân, ansawdd yr amgylchedd adeiledig, cael gwared ar wrthrychau yr ystyrir eu bod yn beryglus i iechyd, amddiffyn cymunedau yn erbyn bygythiad newid yn yr hinsawdd, rhyddid rhag risg uchel o lifogydd, gwella a hyrwyddo bioamrywiaeth a hygyrchedd i fyd natur. | • Bydd llwybr cyd-ddefnyddio yn helpu i ddiogelu cymunedau rhag bygythiad newid yn yr hinsawdd trwy annog newid mewn dulliau teithio i ddulliau mwy cynaliadwy, gan felly leihau allyriadau carbon. (Dangosodd ymgynghoriad cyhoeddus ar y llwybr cyd-ddefnyddio fod 78% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r llwybr arfaethedig ac o'r rhain, dywedodd 96% y byddent yn defnyddio'r llwybr arfaethedig ac roedd 57% yn credu y byddai'r llwybr yn eu helpu i wneud llai o ddefnydd o geir).<br>• Bydd y llwybr yn gwella hygyrchedd pobl at natur yn uniongyrchol (gan gynnwys trigolion lleol ac ymwelwyr â'r ardal), gan eu galluogi i gerdded neu feicio am 21km yn uniongyrchol trwy Ddyffryn Tywi. |
| (e) Hyrwyddo datblygu cynaliadwy mewn ffyrdd sydd:<br>- yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; ac<br>- yn gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu ei derfynau - gan ddefnyddio cyfran deg yn unig o adnoddau'r ddaear a chynnal etifeddiaeth ddiwylliannol. | • Bydd y llwybr yn hyrwyddo cyfle cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd teithio am ddim i bawb yn Nyffryn Tywi, er mwyn cael mynediad at gyfleoedd newydd mewn cyflogaeth ac addysg.<br>• Mae'r Llwybr Cyd-ddefnyddio yn ddatblygiad cynaliadwy, sydd wedi'i ddylunio fel ei fod yn gweithredu gan gydymffurfio â'r amgylchedd lleol cyfagos ac yn cefnogi mynediad cynaliadwy i ystod o deithiau am genedlaethau i ddod.<br>• Bydd agweddau diwylliannol ar Ddyffryn Tywi yn cael eu hyrwyddo trwy gynhyrchu strategaeth ddehongli ar gyfer y llwybr.<br>• Bydd pob arwydd yn ddwyieithog.<br>• Mae Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn rhedeg yn agos at nifer o atyniadau twristaidd yn Nyffryn Tywi, gan gynnwys Amgueddfa Sir Gaerfyrddin a'r Safle Picnic, a Chastell Dryslwyn a'r Safle Picnic a bydd yn hyrwyddo mynediad cynaliadwy i'r lleoliadau hyn. |

[16] Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Llesiant Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio Arfaethedig, Hydref 2022' ac Adroddiad Terfynol WelTAG Cam 2 Llwybr Dyffryn Tywi Chwefror 2021

## 4. Y CYNLLUN

### 4.1 Y Dyluniad ac Ystyriaethau Cysylltiol

Bydd y Cynllun yn cynnwys coridor sy'n mesur nid llai na 3 metr mewn lled gan redeg o orllewin Felin-wen i Ffair-fach, Llandeilo gydag wyneb y llwybr yn bennaf o darmac ond hefyd, lle bo'n briodol, yn cynnwys darnau o arwyneb caled lle mae'r amgylchiadau'n mynnu hynny. Yn unol â'r safonau dylunio a bennir yng Nghanllawiau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru bydd llain un metr bob ochr i'r ardal ag arwyneb a bydd yn cymryd ardal o 3 metr o led neu oddeutu hynny. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd gall hyn fod yn fwy neu'n llai gan ddibynnu ar ofynion gofodol a thopograffi'r ddaear.

Mae'r rhan Orllewinol yn bennaf oddi ar y ffordd a bydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn cael ei adeiladu ar yr hyn sydd bellach yn dir pori yn bennaf; fodd bynnag, bydd yn defnyddio'r ffordd ddiddosbarth (U2138) sy'n arwain at Waith Concrit Abergwili am bellter byr a hefyd rhan o'r ffordd ddiddosbarth (U2178) sy'n arwain at Heol yr Orsaf, Nantgaredig. Bydd nifer o gwlferi i'w croesi ar y rhan hon a fydd yn golygu bod rhai pontydd bach yn cael eu codi.

Bydd Rhan Ddwyreiniol y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn dechrau ffurfio o fan gerllaw Heol yr Orsaf, Nantgaredig, a bydd yn teithio'n bennaf dros reilffordd segur a thir pori. Bydd y rhan hon yn cynnwys dwy bont fawr y mae'n ofynnol eu hadeiladu dros afonydd Tywi a Chothi, a bydd rhaid hefyd adeiladu nifer o groesfannau cwlfer ar hyd yr un llwybr. Mae'r Llwybr Cyd-ddefnyddio yn croesi'r ffordd Dosbarth II B4297 yn Nryslwyn ac yn parhau wedi hynny ar hyd y rheilffordd segur, tir pori a choetir nes cyrraedd Ffair-fach, Llandeilo.

Yn gyffredinol caiff y Cynllun ei adeiladu ar y lefelau daear presennol er bod argloddiau wrth ddynesu at y pontydd newydd, creu strwythurau rhodfa bren lle mae amodau'r ddaear yn mynnu hynny a bod hafn tua phen dwyreiniol y Cynllun i ddarparu ar gyfer proffiliau daear derbyniol yn y rhan hon. Bydd gridiau gwartheg yn cael eu gosod ar ffiniau pob daliad tir perthnasol i atal anifeiliaid rhag teithio rhwng ffermydd.

Mae trefn gyffredinol y cynllun i'w weld yn Niagram Rhif FEAS 01 Rev A (Dogfen Rhif 8)
Mae’r isod yn elfennau annatod o’r cynllun –

- Gwaith tir, paratoi safle a datrysiadau draenio lle bo angen.
- Gwaith arolygu gan ddefnyddio concrit asffalt, ac arwynebau caled amgen lle bo angen.
- Adeiladu strwythurau pontydd. Bydd y prif strwythurau dros afonydd Tywi a Cothi yn rhai o ddur yn bennaf, tra bydd y strwythurau dros y llednentydd a'r ffosydd bychain yn gymysgedd o ddur a deciau pren.
- Gwaith tirweddu yn cynnwys trawsleoli perthi presennol;
- Ffensio, yn cynnwys ffensys atal moch daear a dyfrgwn lle mae hynny’n briodol;
- Eitemau amwynderau gan gynnwys meinciau, byrddau, biniau ac arwyddion.

## 5. Y CEFNDIR CYNLLUNIO

### 5.1.1 Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Gaerfyrddin 2006-2021

Mae Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin 2006-2021 (Dogfen Rhif 9) yn nodi'r weledigaeth ofodol ar gyfer dyfodol Sir Gaerfyrddin a fframwaith ar gyfer dosbarthu a gwireddu twf a datblygiad.
Mae'r Ail CDLl Diwygiedig Adneuo wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 14 Ebrill 2023. Mae'n nodi sawl amcan strategol

y byddai cyflawni'r Llwybr Cyd-ddefnyddio yn cyfrannu atynt, yn benodol SO2, SO4, SO8 a S013. Mae rhan orllewinol y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn gorwedd yng nghlwstwr diffiniedig Caerfyrddin (canolfan ranbarthol) ac mae'r ardaloedd gwledig yn glwstwr diffiniedig tra bod Llandeilo i'r dwyrain yn ganolfan wasanaethau allweddol yng nghlwstwr Tywi Uchaf. Mae polisïau INF2 a TR2 yn cefnogi cynigion sy'n darparu ar gyfer teithio llesol a seilwaith fel y gwna SP17 (3). Mae TRA1 yn cefnogi gwelliannau trafnidiaeth Cydgynllun Trafnidiaeth De-orllewin Cymru 2015-2020 oedd yn cynnwys Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. Mae SP11 yn cefnogi datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r economi ymwelwyr. Yn ogystal, ceir cynigion a pholisïau cynllunio defnydd tir a ddefnyddir wrth benderfynu ar geisiadau gynllunio ac wrth lywio cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer buddsoddi a thwf. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys dyraniadau tir ar gyfer y gwahanol fathau o ddatblygiadau (h.y. tai, cyflogaeth, adwerthu, addysg, mannau agored ac ati) yn ogystal â meini prawf ar gyfer asesu cynigion unigol. Mae'r Cynllun yn cael effaith uniongyrchol ar fywyd pob un sy'n byw yn y Sir ac mae iddo hefyd oblygiadau mawr i raglenni buddsoddi, strategaethau a chynlluniau eraill, cymunedau a thirfeddianwyr fel ei gilydd.

Hyd nes y caiff y CDLl Diwygiedig ei fabwysiadu, bydd CDLl 2006-2021 yn parhau i fod ar waith ar gyfer pob penderfyniad cynllunio, yn unol â chyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Bu oedi wrth lunio'r CDLl Diwygiedig yn sgil cyhoeddi targedau newydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)[17]. Mae targedau newydd CNC yn ceisio lleihau'r lefelau ffosffad mewn ardaloedd cadwraeth arbennig, gan gynnwys Afon Tywi.

Amlygir y Llwybr Cyd-ddefnyddio yng Nghynllun Datblygu Lleol 2006-2021 fel "Llwybr beicio arfaethedig TR4”. Bydd tir sydd ei angen er mwyn hwyluso'r gwelliannau i'r rhwydwaith beicio yn cael ei ddiogelu.

Mae'r polisi'n nodi y "Dylai datblygiadau, lle bo'n briodol geisio ymgorffori, neu lle bo hynny'n dderbyniol, hwyluso cysylltiadau â'r rhwydwaith beicio, hawliau tramwy a llwybrau ceffylau i sicrhau dull cynaliadwy integredig mewn perthynas ag unrhyw safle.**”**

Byddai gwireddu'r Llwybr Cyd-ddefnyddio yn gyson â'r cynllun datblygu presennol a'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo.

### 5.1.2 Cais Cynllunio

Mae'r Cynllun wedi ei rannu'n ddwy ran sef Gorllewin a Dwyrain.

Cyflwynwyd ceisiadau cynllunio manwl ar gyfer y rhan orllewinol (ceisiadau rhif W/34225, E/37932 a W/39127) gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016, Hydref 2018 a Gorffennaf 2019 yn y drefn honno. Rhoddwyd caniatâd i'r ceisiadau hyn, yn ôl amodau, ar 6 Ebrill 2017, 28 Tachwedd 2018 a 7 Gorffennaf 2020 (Dogfen Rhif 10) ac maent yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd.
Mae gwaith sy'n ymwneud â sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y rhan Ddwyreiniol h.y. o Nantgaredig i Ffair-fach yn parhau, gyda chais cynllunio yn ceisio caniatâd i ffurfio llwybr cerddwyr a beicio cyfun wedi'i gyflwyno ar 2 Chwefror 2023 (Cais Rhif: PL/05353). https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/planning/search-for-a-planning-application/#.ZBnOccLP1D8.

Datgelodd yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio, a gynhaliwyd rhwng dydd Llun 3 Hydref 2022 a dydd Llun 31 Hydref 2022, gefnogaeth sylweddol i wireddu'r Cynllun ymhlith y rheiny oedd yn rhan o'r broses.

[17] Cynllun Datblygu Lleol 2018 - 2033 (llyw.cymru)

Rhoddodd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio sylw i ganfyddiadau a chasgliadau yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, a oedd yn dweud bod effaith y llwybr arfaethedig ar y perygl presennol o lifogydd i drydydd partïon yn ddibwys. Derbyniodd CNC y casgliadau hyn ac maent yn cytuno'n gyffredinol â'r canfyddiadau. Fodd bynnag, gwnaethant nodi, er *nad yw'r cynnig yn cydymffurfio'n dechnegol â TAN15 A1.14 (ac nid yw'n debygol o wneud hynny ychwaith, gan y bydd elfen o lifogydd a pherygl o lifogydd oherwydd lleoliad y llwybr ar hyd y rheilffordd (hen) bresennol); Yn y pen draw, yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n gyfrifol am ystyried pa mor dderbyniol yw canlyniadau'r cynnig hwn o safbwynt llifogydd*. Yn unol â hynny, bydd angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gydbwyso manteision posibl y Cynllun yn erbyn unrhyw faterion posibl gan roi ystyriaeth i'r mesurau lliniaru arfaethedig.

Gyda golwg ar Bolisi Cynllunio, mae Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu tuag at nodau Polisïau Cynllunio Cenedlaethol a Lleol. Mae'n cyd-fynd â Pholisïau 11 a 12 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Dogfen Rhif 11) drwy roi blaenoriaeth ar deithio llesol, a'i rôl wrth greu rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau, yn ogystal â chefnogi'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy sy'n *"egwyddor sylfaenol gan Lywodraeth Cymru sy'n sail i Cymru'r Dyfodol"*. Mae'r Cynllun hefyd yn bodloni gofynion Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021) (Dogfen Rhif 12), yn benodol y rheiny sy'n ymwneud â gwelliannau i deithio llesol wrth hyrwyddo lleoedd iachach, creu mannau hamdden a chyfleusterau cymunedol, hwyluso trafnidiaeth, twristiaeth, a seilwaith gwyrdd. Caiff y llwybr ei ddiogelu o dan Bolisi Cynllun Lleol TR4, ac mae hefyd yn cydymffurfio â'r holl Bolisïau Cynllun Lleol perthnasol eraill gan gynnwys EQ4, EQ5, GP1, SP1, SP14, SP9 a TR6.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â darpariaethau'r Polisïau Cynllunio Cenedlaethol a Lleol perthnasol ac nid oes rheswm i gredu na fydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi.

## 5.2 YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL

### 5.2.1 Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol

O ganlyniad i fod y Cynllun o fewn cwmpas prosiectau a ddisgrifir yn Atodlen 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017 yn rhinwedd maint yr ardal, a'i fod yn croesi Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), cafodd ei sgrinio ar gyfer Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol. Cyflwynwyd y Cais am Farn Gwmpasu'r Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (EIASO) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ym mis Ionawr 2017. Cyhoeddodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol Farn Gwmpasu'r Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (EIASO) yn cadarnhau'r datblygiad arfaethedig yr oedd Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol ar ei gyfer ym mis Tachwedd 2017.

Yn rhinwedd y ffaith bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn mabwysiadu'r Farn Sgrinio bod y datblygiad yn cynnwys 'Datblygiad sy'n gofyn am Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol', cyflwynwyd Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol ym mis Ebrill 2018 i benderfynu pa faterion sydd angen eu harchwilio ymhellach o fewn Datganiad Amgylcheddol (Dogfen Rhif 13) i'w cyflwyno i gefnogi'r cais cynllunio ar gyfer y Cynllun. Cadarnhaodd y Farn Cwmpasu a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ym mis Tachwedd 2018 y gallai'r eitemau canlynol gael eu 'cwmpasu allan' o'r Datganiad Amgylcheddol:- Traffig a Thrafnidiaeth; Sŵn a Dirgryndod; Newid yn yr Hinsawdd; Risg o Ddamweiniau neu Drychinebau Mawr, Ansawdd Aer, ac elfennau o Iechyd Dynol, Ecoleg, Deunyddiau a Gwastraff a Dŵr. Cafodd yr agweddau canlynol eu 'cwmpasu i mewn' a'u hasesu yn y Datganiad Amgylcheddol a ddaeth i'r casgliadau canlynol - fel y crynhoir isod:

**Tirwedd ac Effeithiau Gweledol**
Aseswyd bod yr effeithiau ar y dirwedd ac ar amwynderau gweledol yn andwyol iawn o fewn 1km yn unig yn ystod y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod gweithredu, ac wrth i'r gwaith plannu lliniarol newydd aeddfedu, byddai'r effeithiau'n mynd yn ansylweddol.

**Treftadaeth ac Archeoleg**
Byddai'r Datblygiad arfaethedig yn golygu cael gwared ar olion archeolegol sy'n gysylltiedig â safle Abercothi (HER21266) yn ystod y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, gallai'r effeithiau negyddol cymedrol o gael gwared ar yr ased gael eu gwrthbwyso'n rhannol yn dilyn briff gwylio archeolegol. Er hynny ni fyddai'r effaith andwyol yn cael ei gwrthbwyso'n llwyr, gan na all cadw cofnod wneud iawn am golli ased hanesyddol.

**Bioamrywiaeth**
Bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at effeithiau uniongyrchol ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) / Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Afon Tywi trwy amharu ar y prif resymau dros ddynodi'r afon felly (sef dyfrgwn a physgod). Heb fesurau lliniaru priodol gallai effeithiau anuniongyrchol ddigwydd, yn enwedig y perygl o ddigwyddiadau llygredd. Bydd y mesurau lliniaru sefydledig a ddefnyddir wrth ddylunio'r bont droed, ynghyd â'r mesurau lliniaru a ddefnyddir i ddiogelu rhywogaethau gan ddefnyddio ACA / SoDdGA Afon Tywi a'i nodweddion cymhwyso yn arwain at effeithiau gweddilliol dibwys.
Bydd y Cynllun yn darparu ystod o fesurau tirweddu a mesurau lliniaru ecolegol a bydd yn cynnwys y canlynol:
(a) Plannu perthi a thrawsleoli perthi presennol lle mae hynny'n briodol;
(b) Plannu planhigion brodorol ar yr ymylon;
(c) Mesurau lliniaru i ddiogelu dyfrgwn, ystlumod a moch daear

Gwneir y gwaith plannu er mwyn darparu manteision ecolegol yn ogystal â manteision tirweddol drwy blannu planhigion o werth ecolegol.
Bydd dŵr wyneb sy'n llifo oddi ar y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn draenio'n bennaf i dir cyfagos.

**Yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl o Lifogydd**
Mae effaith weddilliol uniongyrchol a thros dro yn aros ar Afon Tywi ac Afon Cothi sydd o arwyddocâd cymedrol i fawr oherwydd agosrwydd y gwaith at sianel yr afon. Fodd bynnag, byddai hyn yn effaith dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu ac nid ystyrir y byddai'n peri effeithiau hirdymor unwaith y bydd y gwaith (gan gynnwys mesurau lliniaru gwaddodion) gerllaw'r cyrsiau dŵr wedi'i gwblhau. Ni ragwelir unrhyw effeithiau gweddilliol sylweddol gan dybio bod mesurau lliniaru yn cael eu gweithredu'n briodol.
Mae cyfran sylweddol o'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i leoli o fewn Parth Llifogydd 2 a 3 ar Fap Llifogydd CNC ar gyfer Cynllunio. Fodd bynnag, mae'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a gynhaliwyd yn dod i'r casgliad bod y risg o lifogydd dŵr wyneb yn gyfyngedig iawn. Bydd arwyddion rhybudd llifogydd hefyd yn cael eu gosod yn strategol ar hyd y llwybr fel mesur lliniaru.

**Cyflwr y Tir a Halogi**
Nododd y broses asesu na fyddai unrhyw effeithiau gweddilliol hirdymor sylweddol ar gyflwr y tir yn sgil adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o dir amaethyddol a ystyrir fel y tir gorau a mwyaf amlbwrpas yn cael ei ddefnyddio gan y datblygiad.

**Poblogaeth ac Iechyd Dynol**
Rhagwelir sawl effaith yn ystod y cyfnod adeiladu gan gynnwys tarfu dros dro ar eiddo preifat a thir amaethyddol (ychydig yn andwyol, heb fod yn sylweddol) a dargyfeiriadau dros dro yn ystod y gwaith adeiladu ar gyfer yr hawliau tramwy cyhoeddus (ychydig yn andwyol, heb fod yn sylweddol). O ran y cyfnod adeiladu mae yna gynnydd posibl mewn sŵn, colli amwynder

gweledol a thirweddol, a dargyfeirio rhai hawliau tramwy cyhoeddus dros dro, ond nid yw'r rhain yn cael eu hystyried yn sylweddol. Gyda golwg ar y cyfnod gweithredol, bydd y Cynllun Arfaethedig yn cael effaith fuddiol ar iechyd pobl pan fydd yn weithredol.

**Deunyddiau a Gwastraff**
Nid ystyrir bod unrhyw effeithiau sylweddol yn debygol yn ystod y cyfnod gweithredu ac felly ni fyddant yn cael eu hystyried o fewn yr asesiad o Ddeunyddiau a Gwastraff.

## 6. YR ANGEN I DDEFNYDDIO PWERAU PRYNU GORFODOL

Mae Atodlen y Gorchymyn yn rhestru pob parti sydd â buddiant cymwys yn Nhir y Gorchymyn fel y'i diffinnir gan adran 12(2) o Ddeddf 1981 gan gynnwys:

(a) Perchnogion, deiliaid prydles, tenantiaid a meddianwyr Tir y Gorchymyn,
(b) Y rheiny sy'n elwa o hawliau o fewn Tir y Gorchymyn neu gyfamodau cyfyngol sy'n effeithio ar deitlau sy'n ffurfio Tir y Gorchymyn, a
(c) Pob parti arall sydd â grym i werthu, trosglwyddo neu ryddhau buddiant neu hawl dros Dir y Gorchymyn ac unrhyw bartïon sydd â hawl i wneud hawliad am iawndal o dan adran 10 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965

Paratowyd Atodlen y Gorchymyn yn dilyn ymarferiad cyfeirio helaeth gan y Cyngor ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd trwy archwilio'r cofrestrau a gedwir gan y Gofrestrfa Tir gan gynnwys dogfennau cysylltiedig y cyfeirir atynt yno, archwiliadau safle ac ymholiadau gyda meddianwyr tir, asiantau ac ymatebion i hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth a gyhoeddwyd o dan adran 5A o Ddeddf 1981.

Gan ddiystyru'r tir sydd eisoes ym mherchnogaeth y Cyngor ceir cyfanswm o 32 o dirddaliadau ychwanegol ar wahân ac mae'r Cyngor wedi bod yn trafod gyda'r priod dirfeddianwyr mewn ymgais i gaffael tir a hawliau sy'n angenrheidiol i alluogi'r Cynllun i fynd rhagddo. Yn ystod y trafodaethau hynny mae’r Cyngor wedi egluro goblygiadau’r Cynllun i’r tirfeddianwyr, a’i awydd i gynnal deialog gyda nhw ynglŷn â phrynu’u tir. Mae’r Cyngor wedi ystyried eu pryderon unigol gan bwyso a mesur y pryderon hynny yn erbyn amcanion economaidd, cymdeithasol ac ehangach y Cynllun. Mae ymgais resymol wedi’i gwneud i gaffael y buddiannau sy’n weddill drwy gytundeb preifat ond ni wnaed cynnydd digonol.
Hyd yma mae'r Cyngor eisoes wedi prynu tri eiddo (sef lleiniau rhif 3, 5 a 6 ar Fap y Gorchymyn gyda lleiniau rhif 19, 19/a, 19/b, 21, 21/a, 21/b a 44 eisoes yn ei berchnogaeth) a gwnaed cytundeb mewn egwyddor i brynu dau eiddo pellach (sef lleiniau rhif 9, 9/a, 9/b, 9/c a 10 ar Fap y Gorchymyn) ac mae trosglwyddo hyn yn cael ei brosesu ar hyn o bryd neu bydd yn cael ei brosesu cyn hir gan gynrychiolwyr cyfreithiol y priod berchnogion. Cafwyd cytundeb hefyd gyda golwg ar hawliau hawddfraint (sef lleiniau 7, 25/a a 32/a ar Fap y Gorchymyn). Mae deg ar hugain o eiddo i'w caffael o hyd a hyd yma ni ddaethpwyd i gytundeb â'r perchnogion. Heb gael cadarnhad o'r Gorchymyn, mae’r Cyngor yn fodlon na fydd yn gallu caffael yr holl dir sy’n ofynnol i alluogi’r gwaith o adeiladu’r Cynllun, ac felly'r Llwybr Cyd-ddefnyddio, i fynd rhagddo. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os yw'r Cyngor am fodloni'r amserlen sy'n ofynnol gan y corff cyllido i wireddu'r Cynllun. Mae oedi pellach yn peri'r risg o beryglu mynediad i arian cyhoeddus sydd wedi'i sicrhau ac felly wireddu'r Cynllun a'r Llwybr Cyd-ddefnyddio.

Mae'n hanfodol bod gan y Cyngor unig berchnogaeth ar Dir y Gorchymyn er mwyn sicrhau y gall rhannau priodol y Llwybr Cyd-ddefnyddio ddod yn briffordd a gynhelir ar draul y cyhoedd, ynghyd â'r ffaith bod angen caffael hawliau hawddfraint trydydd parti i ddiogelu gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol wedi hynny. Mae’r Cyngor yn llwyr gydnabod hawliau unigolion sydd â buddiant yn Nhir y Gorchymyn ac mae’n cadw mewn cof mai dim ond pan fetha popeth arall y dylid defnyddio pwerau gorfodol. Bydd y Cyngor yn parhau i drafod gyda'r perchnogion buddiannau perthnasol sy'n weddill i geisio caffael eu tir drwy gytundeb a bydd

y trafodaethau hyn yn parhau i fynd rhagddynt ar yr un pryd â'r broses o geisio cael y Gorchymyn wedi'i gadarnhau.

Mae Tir y Gorchymyn yn cynnwys sawl llain ar hyd cyfan y Cynllun sy'n ofynnol yn unig at ddiben hwyluso'r gwaith o adeiladu'r llwybr cyd-ddefnyddio. Ar ôl cwblhau lleiniau'r Cynllun rhifau 1/a, 1/c, 4/a, 4/b, 8/a, 8/b, 8/c, 9/a, 9/b, 9/c, 11/b, 11/c, 14/a, 15/a, 17/a, 18/e, 20/a, 23/a, 25/b, 34/b, 35/c, 37 a 44/a bernir eu bod yn dir dros ben a bydd y Cyngor yn mabwysiadu Rheolau Crichel Down wrth drosglwyddo'r rhain.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod yna nifer o hawliau trydydd parti presennol sy'n effeithio ar Dir y Gorchymyn a heblaw am ddileu hawliau i gerbydau dros Leiniau 25 a 27 a oedd yn hanesyddol wedi'u cadw, bydd pob hawl gyfreithlon arall sy'n weddill o ran mynediad dros y llwybr cyd-ddefnyddio sy'n angenrheidiol i gael mynediad i eiddo neu i ymgymryd â gweithrediadau amaethyddol ar dir cyfagos yn parhau.

## 7. RHOI'R CYNLLUN AR WAITH

### 7.1 Costau'r Cynllun

Amcangyfrifir y bydd y Cynllun yn costio cyfanswm o £21.067 miliwn ac mae hynny'n ystyried y gost o gaffael Tir y Gorchymyn, ffioedd dylunio a rheoli'r prosiect (gan gynnwys costau cynllunio a ffioedd proffesiynol) ac adeiladu'r Cynllun. Mae'r swm amcangyfrifedig hwn yn cynnwys elfen o'r costau yr aethpwyd iddynt eisoes ers sefydlu'r cynllun arfaethedig yn 2014.

### 7.2 Cyllid

Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1,863,879 o arian cyfalaf tuag at y Cynllun. Mae £16,774,912 wedi ei sicrhau gan gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.
Bydd y cyllid hwn yn sicrhau nad oes rhwystr ariannol i'r Cyngor gaffael Tir y Gorchymyn yn orfodol yn dilyn cadarnhad o'r Gorchymyn ac wedi hynny'r gwaith sy'n gysylltiedig â gwireddu'r Cynllun.

### 7.3 Y Rhaglen Gyflawni

Mae'r Cyngor yn bwriadu caffael yr holl fuddiannau yn Nhir y Gorchymyn (oni bai ei fod yn cael ei nodi'n benodol yn Atodlen y Gorchymyn) naill ai trwy gytundeb neu drwy arfer y pwerau prynu gorfodol fel y nodir yn y datganiad hwn. Bydd y Cyngor yn ceisio caffael yr holl fuddiannau cymwys yn unol â Deddf 1981 i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu.
Mae'r Cyngor yn awyddus i gychwyn ar y Cynllun cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Y bwriad presennol yw i'r gwaith adeiladu ddechrau mewn modd graddol yn 2023 gyda chyfnod adeiladu disgwyliedig o tua 18 mis.

Mae rhan orllewinol y Cynllun sy'n ymestyn o Abergwili i Nantgaredig eisoes yn elwa ar ganiatâd cynllunio ac, yn dilyn cyflwyno'r cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer gweddill y llwybr o Nantgaredig i Ffair-fach, ni ddisgwylir y bydd unrhyw rwystrau cynllunio i weithredu'r rhan hon. Ceir cyfyngiadau amser ar yr amserlen ddatblygu er mwyn cydymffurfio â gofynion y cyllid, ac ar hyn o bryd mae angen ei hawlio erbyn Mawrth 2024, er y gall hynny gael ei ymestyn.
I grynhoi, mae'r Cyngor yn fodlon nad oes rhwystrau ariannol, ffisegol, cynllunio na chyfreithiol i'r Cynllun fynd rhagddo ac mae pob posibilrwydd rhesymol y bydd yn symud ymlaen i gael ei gwblhau, fel bod modd sicrhau'r Llwybr Cyd-ddefnyddio, unwaith y bydd y Gorchymyn yn cael ei gadarnhau.

## 8. DATGANIADAU, POLISÏAU A FFRAMWEITHIAU CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL

Mae’r Cynllun yn cydymffurfio â strategaethau a pholisïau cenedlaethol a lleol ar sawl lefel, a manylir ar y rhain isod:-

### 8.1 Polisïau a Strategaethau Lleol

8.1.1 Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Gaerfyrddin 2006-2021

Amlygir y Llwybr Cyd-ddefnyddio yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Gaerfyrddin 2006-2021 fel "Llwybr Beicio Arfaethedig TR4”. Bydd tir sydd ei angen er mwyn hwyluso'r gwelliannau i'r rhwydwaith beicio yn cael ei ddiogelu.

Mae'r polisi'n nodi y "Dylai datblygiadau, lle bo'n briodol geisio ymgorffori, neu lle bo hynny'n dderbyniol, hwyluso cysylltiadau â'r rhwydwaith beicio, hawliau tramwy a llwybrau ceffylau i sicrhau dull cynaliadwy integredig mewn perthynas ag unrhyw safle.”

Bu oedi wrth lunio'r CDLl Diwygiedig ar gyfer cyfnod y cynllun newydd yn sgil cyhoeddi targedau newydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r Ail CDLl Adneuo wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw Ebrill 2023. Mae'r sylfaen dystiolaeth a gyhoeddwyd yn cynnwys asesiad o Seilwaith Gwyrdd y mae hawliau tramwy cyhoeddus yn rhan ohono. Mae'n cydnabod bod buddsoddi mewn Seilwaith Gwyrdd yn cyfrannu at lwyddiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal. Mae'r Cynllun sy'n sail i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol yn cynrychioli Seilwaith Gwyrdd. Mae targedau newydd CNC yn ceisio lleihau'r lefelau ffosffad mewn ardaloedd cadwraeth arbennig, gan gynnwys Afon Tywi. Hyd nes y caiff y CDLl Diwygiedig ei fabwysiadu, bydd Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin 2006-2021 yn parhau i fod ar waith ar gyfer pob penderfyniad cynllunio, yn unol â chyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

8.1.2 Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: Y Sir Gâr a Garem 2018 – 2023 (Dogfen Rhif 14)

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin wedi datblygu cynllun llesiant ar gyfer Sir Gaerfyrddin (2018-2023). Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer cynllun Llesiant 2023-2028 wedi cael ei gynnal a daeth i ben ym mis Ionawr 2023. Yn seiliedig ar ganfyddiadau asesiad llesiant Sir Gaerfyrddin ac ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid, mae cynllun 2018-2023 yn canolbwyntio ar gyflawni pedwar amcan:

- **Arferion Iach:** Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maen nhw'n gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'r amgylchedd;
- **Ymyrraeth Gynnar:** Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt;
- **Cysylltiadau Cryf:** Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt sy'n gallu addasu i newid; a
- **Pobl a Lleoedd Ffyniannus:** Uchafu’r cyfleoedd ar gyfer pobl a lleoedd mewn ardaloedd trefol a gwledig o’n sir.

Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu tuag at annog 'Arferion Iach' a chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol. Ar hyn o bryd mae aneddiadau yn y dyffryn wedi'u cysylltu drwy'r A40 a'r B4300 (yn ogystal â lonydd gwledig llai). Mae agor y llwybr ar hyd yr hen reilffordd yn caniatáu i gymunedau gael eu hailgysylltu drwy lwybr oddi ar y ffordd, gan felly hyrwyddo 'Cysylltiadau Cryf’. Bydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio hefyd yn helpu i gyflawni 'Pobl a Lleoedd Ffyniannus' drwy ddarparu ffordd o fynediad i deithio am ddim at gyfleoedd addysgol a chyflogaeth i'r rheiny sydd heb gar preifat yn Nyffryn Tywi.

8.1.3 Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf (2018) (Dogfen Rhif 15)

Mae Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin wedi nodi 100 o brosiectau, cynlluniau neu wasanaethau â blaenoriaeth i'w cyflawni erbyn diwedd 2023. Nod cyflwyno'r prosiectau a'r rhaglenni hyn yw cyfrannu at sicrhau mai Sir Gaerfyrddin yw'r "lle gorau i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef."
Un o nodau'r cynllun hwn yw sefydlu Sir Gaerfyrddin fel 'Canolbwynt Beicio Cymru'. Mae Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin yn targedu'r gwaith o ddatblygu cyfleoedd ar gyfer hamdden a llesiant trwy gyflawni prosiectau fel ffyrdd o gyflawni hyn, gan nodi bod gwireddu Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn un o'r prosiectau allweddol hyn. Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cynyddu llesiant corfforol a meddyliol yn Nyffryn Tywi trwy ddarparu llwybr teithio llesol sy'n addas ar gyfer hamdden a chymudo.

8.1.4 Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin, 2018 – 2023 (diweddarwyd ym mis Ebrill 2021) (Dogfen Rhif 16)

Mae Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin yn dilyn cyfeiriad y sir, fel yr amlinellir yn Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin (2018), er mwyn gwneud Sir Gaerfyrddin "lle gorau i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef." Mae Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin yn crynhoi gweledigaeth y Cyngor i 4 categori:

- Dechrau'n Dda;
- Byw'n Dda;
- Heneiddio'n Dda; ac
- Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus.

O fewn y 4 categori hyn ceir 15 o amcanion Llesiant, gyda Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cael ei ddefnyddio fel enghraifft o fodloni Amcan Llesiant 11 (Gwella'r seilwaith priffyrdd a thrafnidiaeth a chysylltedd), sy'n cyfrannu tuag at greu Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus.

8.1.5 Sir Gaerfyrddin: Canolbwynt Beicio Cymru - Strategaeth Feicio (2018) (Dogfen Rhif 17)

Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth gyda'r nod o ddod yn Ganolbwynt Beicio Cymru. Amlinellir nifer o nodau ac amcanion yn y ddogfen hon, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu seilwaith a chyfleusterau, addysg, hyfforddiant a datblygu, digwyddiadau, twristiaeth, marchnata a brandio. Mae'r Strategaeth yn cydnabod manteision beicio gan ei ddisgrifio fel gweithgaredd amlweddog sy'n agored i bob oed. Nodir cynllun gweithredu sy'n cynnwys ffocws ar seilwaith a chyfleusterau; mae Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi wedi'i grybwyll yn benodol o fewn y ddogfen, gyda'r llwybr yn cynnig nifer o gyfleoedd i helpu i gyfrannu tuag at weledigaeth Canolbwynt Beicio Cymru.

8.1.6 Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen (2019) (Dogfen Rhif 18)

Cyhoeddwyd adroddiad Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen gan y Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig a dyma'r strategaeth eang gyntaf erioed a ddatblygwyd i adfywio'r cymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r adroddiad yn cyfleu nodweddion unigryw'r aneddiadau gwledig yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n nodi sut i adeiladu arnynt er mwyn i genedlaethau'r dyfodol werthfawrogi eu cyfoeth a'u gwerth.

Mae'r adroddiad ei hun yn argymell archwilio dichonoldeb datblygu llwybrau beicio ar reilffyrdd segur ledled y Sir yn sgil llwyddiant a datblygiad Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi. Mae amryw o argymhellion eraill hefyd yn yr adroddiad y gall datblygiad Dyffryn Tywi gyfrannu at fynd i'r afael â hwy, megis tranc gwasanaethau mewn aneddiadau llai a gwella cysylltedd o fewn ac ar draws aneddiadau llai.

8.1.7 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin (ROWIP) 2019 – 2029 (Dogfen Rhif 19)

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y gall y Cyngor, fel awdurdod, reoli rhwydweithiau Hawliau Tramwy lleol yn well a gwneud gwelliannau. Mae'n gwneud hyn trwy restru cyfres o nodau sy'n sail i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Sicrhau bod y rhwydwaith Hawliau Tramwy yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn bleserus;
2. Darparu map a datganiad diffiniol dibynadwy, cywir a chyfredol, sydd ar gael yn eang;
3. Sicrhau bod y cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnig mwynhad;
4. Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r holl bartïon perthnasol sydd â diddordeb er mwyn cael gwell cyfleusterau ar gyfer mynediad i gefn gwlad; a
5. Hyrwyddo – cynnal a gwella ystod ac ansawdd gwybodaeth gyhoeddus ar fynediad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus a'i gwneud ar gael yn fwy eang mewn fformatau priodol.

Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn darparu cyfleoedd mynediad i gefn gwlad sy'n hawdd i'w defnyddio ac yn bleserus. Bydd y llwybr yn rhoi profiad agos i natur i'r defnyddwyr, ynghyd â bod i ffwrdd o'r ffyrdd prysuraf (B4300/A40). Bydd y llwybr yn cynnwys arwyddion dwyieithog a physt gwybodaeth sy'n rhoi gwybod i ddefnyddwyr am y llwybr ac am Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

8.1.8 Cynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin 2015-2030 - Trawsnewidiadau (Dogfen Rhif 20)

Mae'r Strategaeth Drawsnewidiol yn cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013-2030 ac mae'n canolbwyntio ar greu swyddi, twf busnes, gwella sgiliau'r gweithlu, datblygu'r economi wybodaeth a chreu lleoedd nodedig. Nod y strategaeth yw creu mwy na 5,000 o swyddi newydd ac ymdrechu i greu economi o fewn Sir Gaerfyrddin sydd ar 90% o lefel Gwerth Ychwanegol Gros cyfartalog y DU.

Un flaenoriaeth allweddol o fewn y strategaeth yw creu cyfleusterau Cerdded a Beicio fel atyniad twristiaeth gan hefyd gynnig opsiynau teithio cynaliadwy i gael mynediad i safleoedd cyflogaeth, ysgolion ac atyniadau twristiaeth gan gynnwys cynllun yn rhan isaf Dyffryn Tywi.

## 8.2 Polisïau a Strategaethau Rhanbarthol

8.2.1 Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013-2030 (Dogfen Rhif 21)

Mae Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cynrychioli fframwaith strategol uchelgeisiol er mwyn cefnogi De-orllewin Cymru a'i datblygiad economaidd i'r dyfodol. Yr amcanion yw:

- Newid y cymysgedd sectoraidd yn economi'r dinas-ranbarth, gyda newid clir tuag at sectorau gwerth uwch.
- Newid y cymysgedd galwedigaethol yn economi'r dinas-ranbarth, trwy newid tuag at alwedigaethau lefel uwch.
- Lleihau'r diffyg mewn Gwerth Ychwanegol Gros fesul gweithiwr i 90% o gyfartaledd y DU erbyn 2030.

Mae'r Fframwaith yn cynnwys pum Nod Strategol a fydd yn cael sylw. Mae hefyd yn cynnwys pedair Thema Drawsbynciol Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cefnogi Nodau Strategol 3 a 5 sy'n canolbwyntio ar wneud y mwyaf o greu swyddi i bawb, a chreu lleoedd unigryw gyda seilweithiau cystadleuol.

8.2.2 Cydgynllun Trafnidiaeth De-orllewin Cymru 2015-2020 (Dogfen Rhif 22)

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer 2015 - 2020 yn amlinellu nifer o broblemau a deilliannau dymunol cysylltiedig sydd wedi helpu i lunio gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth yn y rhanbarth:

*"Gwella trafnidiaeth a mynediad o fewn a thu hwnt i'r rhanbarth er mwyn hwyluso adfywiad economaidd, lleihau amddifadedd a chefnogi datblygu a defnyddio mathau o drafnidiaeth iachach a mwy cynaliadwy."*

Mae Coridor Trafnidiaeth Dyffryn Tywi yn cael ei grybwyll yn benodol o fewn y cynllun fel Blaenoriaeth 8 o 12 ar gyfer rhestr gynlluniau Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer y cyfnod 2015 - 2020. Mae gan y llwybr y potensial i helpu i gyflawni gweledigaethau'r ddogfen trwy wella mynediad at ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy a chynorthwyo i leihau effaith andwyol trafnidiaeth ar iechyd a newid yn yr hinsawdd. Gall y cyfle o gael llwybr cyd-ddefnyddio newydd oddi ar y ffordd hefyd wella diogelwch, gan gynnwys y canfyddiad o ddiogelwch a diogelwch gwirioneddol, ar gyfer cerddwyr a beicwyr sy'n dymuno teithio rhwng aneddiadau yn Nyffryn Tywi.

8.2.3 Strategaeth Feicio Ranbarthol De-orllewin Cymru (2020) (Dogfen Rhif 23)

Pwrpas Strategaeth Feicio Ranbarthol De-orllewin Cymru yw darparu cyfeiriad clir a phartneriaeth gydlynol ar gyfer datblygu cerdded a beicio yn Ne-orllewin Cymru dros y deng mlynedd nesaf.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod mai un o'r prif rwystrau o hyd i gynyddu lefelau beicio yw darparu llwybrau beicio diogel i atyniadau a chyrchfannau hysbys. Bydd datblygu Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn darparu llwybr diogel a pharhaus i nifer o atyniadau a chyrchfannau ledled Rhanbarth Dyffryn Tywi.

## 8.3 Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol

8.3.1 Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013)

Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) yw gwneud teithio llesol yn opsiwn mwyaf deniadol ar gyfer teithiau byrrach bob dydd (siwrneiau i'r gwaith, i'r ysgol, i fynd i siopau neu wasanaethau, ac ati h.y. nid hamdden yn unig). Bydd galluogi mwy o bobl i ymgymryd â theithio llesol yn golygu y gall mwy o bobl fwynhau manteision iechyd teithio llesol, helpu i leihau allyriadau tŷ gwydr, mynd i'r afael â thlodi ac anfantais a helpu'r economi i dyfu. Diweddarwyd Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol yn 2021 (cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021). Rhoddodd hyn ddiweddariad i'r ddwy ddogfen ganllaw statudol wreiddiol a gynhyrchwyd yn 2014.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau teithio llesol ar gyfer aneddiadau penodol a enwir a chyflwyno gwelliannau bob blwyddyn mewn llwybrau a chyfleusterau teithio llesol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd yng Nghymru wneud gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr ym mhob cynllun ffordd newydd a rhoi sylw i anghenion beicwyr a cherddwyr mewn ystod o swyddogaethau awdurdod lleol eraill. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo teithiau teithio llesol wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

Mae Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cysylltu nifer o bentrefi gwledig a Llandeilo gyda Chaerfyrddin sy'n ardal gyflogaeth bwysig yn y Sir. Bydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn rhoi cyfle i bobl sy'n byw yn yr aneddiadau gwledig cysylltiedig i gymudo ar droed neu ar feic.

8.3.2 Strategaeth Feicio Cymru – Ysbrydoli Cymru i Feicio (Dogfen Rhif 24)

Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaeth Beicio Cymru sef cael mwy o bobl i gymryd rhan yn y gamp o feicio a chynyddu llwyddiant rhyngwladol a chenedlaethol yn y gamp. Bydd y weledigaeth gyffredinol ar gyfer Beicio Cymru yn cael ei gwireddu ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid.

Bydd prosiect Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Mwy o bobl ifanc yn beicio ac yn rasio'n rheolaidd, gan ddatblygu eu sgiliau a'u hyder

- Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn darparu llwybr beicio diogel a fydd yn annog plant a theuluoedd i arfer ffyrdd iachach o fyw trwy wneud mwy o gerdded a beicio. Mae Dyffryn Tywi mewn sefyllfa arbennig o dda o ran manteision amgylcheddol gan felly roi cyfleoedd i ddefnyddwyr ddod i gyswllt â byd natur.

- Mwy o bobl yn cymryd rhan ac yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau beicio wedi'u trefnu, gan gyflawni eu nodau personol

- Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn darparu llwybr beicio di-draffig, amlddisgyblaeth a fydd yn golygu bod modd darparu gweithgareddau beicio yn ddiogel ac ehangu'r cyfleoedd i bawb gymryd rhan mewn beicio.

8.3.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio ac yn ystyried cenedlaethau'r dyfodol yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud heddiw. Mae'r Ddeddf yn amlinellu saith nod llesiant fel a ganlyn:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r Ddeddf yn disgrifio sut y dylid cyflawni'r uchod trwy 5 ffordd o weithio, sydd fel yr isod:

- Hirdymor;
- Atal;
- Integreiddio;
- Cydweithio; a
- Chynnwys.

Fel yr amlinellir, mae Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn ceisio cyfrannu at bob un o'r saith nod ond yn benodol bydd yn cyfrannu at bedwar nod sef Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus, drwy gynnig cyfle diogel i wneud teithiau llesol cost effeithiol rhwng aneddiadau a chyrchfannau yn Nyffryn Tywi. Bydd y llwybr yn helpu i greu buddion economaidd cynaliadwy a lleihau allyriadau carbon drwy newid model.

Mae'r pum ffordd o weithio wedi'u hintegreiddio i bob proses sy'n gysylltiedig â chynllun Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi gan gynnwys dylunio llwybrau, arfarnu opsiynau a gwaith gweithredu'r prosiect. Cymerwyd dulliau cydweithredol gan gynnwys ymgynghori'n helaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid fel rhan o'r broses o wneud cais cynllunio a thu hwnt, sydd wedi arwain at ateb hirdymor sy'n ceisio atal materion yn y dyfodol megis newid yn yr hinsawdd. Mae'r llwybr cyd-ddefnyddio yn integreiddio â llawer o gynlluniau a phrosiectau cyfagos.

Paratowyd Cynllun llesiant ar gyfer y Llwybr Cyd-ddefnyddio sy'n amlinellu sut y rhoddwyd sylw i'r pum ffordd o weithio gyda golwg ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chaiff ei ddarparu o fewn Llwybr Dyffryn Tywi, Adroddiad Asesu Effeithiau, WelTAG Cam 2, Adroddiad Terfynol, Chwefror 2021.

8.3.4 Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru, 2016 (Dogfen Rhif 25)

Mae Cynllun Gweithredu Teithio Llesol Cymru yn cyflwyno gweledigaeth:

"I bobl yng Nghymru mae arnom eisiau i gerdded a beicio ddod yn ddewis ffordd o symud o gwmpas ar deithiau byrion."

Mae'r cynllun yn cydnabod bod y cyfleoedd i deithio ar droed neu ar feic yn amrywio'n fawr rhwng ardaloedd gwledig a threfol ond mae'n nodi nifer o feysydd blaenoriaeth lle dylid canolbwyntio buddsoddiad. Mae nifer o'r meysydd blaenoriaeth hyn yn canolbwyntio ar ysgolion. Nod Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yw cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion deithio'r cyfan neu ran o'u teithiau i'r ysgol drwy fodd llesol. Bydd yn mynd trwy gyffiniau nifer o ysgolion cynradd ac ysgol uwchradd Ysgol Bro Dinefwr, yn ogystal â bod o fewn y dalgylchoedd ar gyfer ysgolion uwchradd eraill yng Nghaerfyrddin.

8.3.5 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi ar waith y ddeddfwriaeth angenrheidiol i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynol.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd i leihau allyriadau o fewn cyllidebau carbon Llywodraeth Cymru. Y targedau lleihau allyriadau dros dro yw:

- 2030: Gostyngiad o 45%; a
- 2040: gostyngiad o 67%.

Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn annog pobl i symud at ddulliau cynaliadwy, gan leihau'r ddibyniaeth ar gludiant modur preifat ar gyfer pob taith fer/ganolig rhwng Caerfyrddin a Ffair-fach. Gyda'r 'Newid dulliau teithio' hyn, bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu at y targedau lleihau carbon a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

8.3.6 Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, 2019 (Dogfen Rhif 26) a Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2 (2021-2025)

Ym mis Ebrill 2019 datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd a chynhyrchodd Gynllun Carbon Isel â 100 o bwyntiau sy'n manylu at sut y gall Cymru ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. O fewn y Cynllun Carbon Isel, mae Cynigion 12 a 13 yn hyrwyddo cynnydd yn uniongyrchol mewn teithio llesol a newid dulliau teithio.

Yn ogystal â'r cynigion hyn, mae'r polisi canlynol hefyd yn amlinellu cynlluniau i gynyddu teithio llesol:

**Polisi 46 – Cynyddu Teithio Llesol**

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r manteision o safbwynt iechyd pobl a'r amgylchedd a ddaw yn sgil cerdded a beicio trwy ryddhau llai o allyriadau. Gweledigaeth y polisi yw bod teithio llesol yn dod yn ffordd o ddewis ar gyfer teithio pellteroedd byrrach, sy'n weledigaeth y gall Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi helpu i'w chyflawni yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Cynllun Cymru Sero Net Cymru yn gynllun gweithredu pum mlynedd sy'n llywio cam nesaf nod Cymru i fod yn sero net erbyn 2050. Dyma'r cynllun lleihau allyriadau nesaf, yn dilyn ymlaen o Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, a oedd yn cwmpasu'r gyllideb garbon gyntaf (2016-20).

Mae Cynllun Cymru Sero Net yn nodi bod lleihau allyriadau o drafnidiaeth yn chwarae rôl bwysig yn y nod cyffredinol o gael Cymru i gyrraedd sero net, yn ogystal â chwarae rôl mewn "creu manteision ehangach ar draws iechyd, ansawdd aer, hygyrchedd a'r economi." Mae hybu newid mewn dulliau teithio tuag at ddulliau cynaliadwy yn un o'r meysydd lliniaru a nodwyd; bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu at y newid hwn trwy ddarparu'r seilwaith sydd ei angen yn Nyffryn Tywi i gefnogi cerdded a beicio.

8.3.7 Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025 (Dogfen Rhif 27)

Nod Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025 yw tyfu twristiaeth "er budd Cymru". Nod y cynllun yw cyflawni'r 4 nod hyn wrth ddarparu ar gyfer twf mewn twristiaeth;

- Twf economaidd sy'n sicrhau manteision i bobl a lleoedd
- Cynaliadwyedd amgylcheddol
- Cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol
- Buddion iechyd

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, nod y cynllun yw darparu "profiadau o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn sy'n dda i ymwelwyr a chymunedau lleol" trwy ddull lleol (Bro) a dull byd-eang (Byd).

Mae Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn rhedeg yn agos at nifer o atyniadau twristaidd yn Nyffryn Tywi, gan gynnwys Amgueddfa Sir Gaerfyrddin a'r Safle Picnic, a Chastell Dryslwyn a'r Safle Picnic. Bydd y llwybr yn galluogi twristiaeth, gan ddarparu llwybr cerdded a beicio o aneddiadau yn Nyffryn Tywi i'r cyrchfannau twristaidd niferus, a fydd yn ei dro yn cyfrannu at y nodau a bennwyd gan gynllun Croeso i Gymru. Mae'n bosibl y bydd y llwybr hefyd yn cael ei weld fel atyniad twristaidd yn ei rinwedd ei hun, gan ddenu defnyddwyr hamdden i'r ardal a rhoi hwb pellach i'r economi leol.

8.3.8 Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (2020) (Dogfen Rhif 28)

Nod Cynllun Aer Glân i Gymru Llywodraeth Cymru yw lleihau llygredd aer a chefnogi gwelliannau o ran iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol. Mae'r cynigion yn y cynllun yn cynnwys:

- Gwella ein galluoedd i fonitro ac asesu ansawdd aer;
- Cynigion ar gyfer fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol sy'n addas i'r diben o ran rheoli ansawdd aer yng Nghymru;
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o lygredd aer a chyfathrebu newid ymddygiad i helpu pawb i wella ansawdd aer ac annog eraill i wneud yr un peth; a
- Hyrwyddo'r newid o'r cerbyd modur preifat i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Drwy hyrwyddo symud i ffwrdd o drafnidiaeth modur preifat, bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn annog teithio llesol, gan gyfrannu at welliannau mewn llygredd aer a lleihau allyriadau carbon. Mae gan Llandeilo a Chaerfyrddin Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer nitrogen deuocsid sydd wedi'u lleoli o amgylch canol eu tref. Gyda rhannau helaeth o Lwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi i ffwrdd o ffyrdd mawr, (e.e. yr A40 a'r B4300) bydd y llwybr yn "lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl", un o amcanion Cynllun Aer Glân Cymru.

8.3.9 Cymru’r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)

Cymru'r Dyfodol yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwytnwch hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.

Dylid ffurfio twf o amgylch mathau cynaliadwy o drafnidiaeth a lleoedd sy'n ein gwneud ni a'r amgylchedd yn iachach.

Mae'r strategaeth ofodol a amlinellir yn Cymru’r Dyfodol yn rhestru 33 o bolisïau, dau ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â thrafnidiaeth a gwella cysylltedd. Mae’r rhain fel a ganlyn:

**Polisi 11 – Cysylltedd Cenedlaethol**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r mesurau canlynol i wella cysylltedd cenedlaethol:

- Rhwydwaith Rheilffyrdd – Trawsnewid y rhwydwaith rheilffyrdd a gwella ansawdd y gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr.
- Rhwydwaith Bysiau – Buddsoddi mewn datblygu'r rhwydwaith bysiau cenedlaethol, wedi'i integreiddio'n llawn â rhwydweithiau bysiau rhanbarthol a lleol, i gynyddu cyfran y teithio a wneir ar fysiau a gwella mynediad ar fws i ystod ehangach o gyrchfannau taith.
- Rhwydwaith Ffyrdd Strategol – Buddsoddi mewn gwelliannau i'r ffyrdd er mwyn lleihau amserau teithio, darparu rhwydwaith ffyrdd mwy diogel a chydnerth, a gwella ansawdd aer a sŵn. Creu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cyflym i alluogi cerbydau trydan i deithio'n bell drwy bob rhan o Gymru.
- Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol – Adfywio'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol i greu rhwydwaith o lwybrau di-draffig sy'n cysylltu dinasoedd, trefi a chefn gwlad ledled Cymru.

**Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol**

Mewn ardaloedd trefol, i gefnogi twf ac adfywio cynaliadwy, ein blaenoriaethau yw gwella ac integreiddio teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mewn ardaloedd gwledig ein blaenoriaethau yw ehangu, cefnogi a chynnal gwasanaethau bws lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid i gyflawni cyfres o fesurau. Tynnir sylw at un o'r mesurau i wella cysylltedd rhanbarthol:

- Teithio Llesol – Blaenoriaethu cerdded a beicio ar gyfer pob teithio lleol. Byddwn ni'n cefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf Teithio Llesol i greu rhwydweithiau cynhwysfawr o lwybrau cerdded a beicio lleol sy'n cysylltu lleoedd y mae angen i bobl eu cyrraedd at ddibenion bob dydd.

Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu at amcanion a pholisïau Cynllun Cenedlaethol 2040, gan gyfrannu at nodau Llywodraeth Cymru i "leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid dulliau teithio i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus”. Mae Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn blaenoriaethu teithio llesol, a fydd yn cefnogi'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy sy'n "egwyddor sylfaenol Llywodraeth Cymru sy'n sail i Gymru yn y dyfodol”. Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cefnogi polisïau 11 a 12 trwy flaenoriaethu teithio llesol a thrwy ei rôl o greu rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau, sydd â photensial i'w cynnwys fel rhan o lwybr ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (yn amodol ar drafodaeth bellach a chytundeb gyda Sustrans). Mae Tudalen 51 yn cyfeirio at bwysigrwydd y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a bod yr holl welliannau a gynlluniwyd yn cael eu cefnogi. Yn unol â hynny mae'r Cynllun Cenedlaethol yn cefnogi'r Cynllun sy'n sail i'r Gorchymyn a'r Llwybr Cyd-ddefnyddio.

8.3.10 Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021) (Dogfen Rhif 29)

Gweledigaeth Llwybr Newydd yw 'system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon’. Mae'r Strategaeth yn cynnwys blaenoriaethau byrdymor am y 5 mlynedd nesaf, sef:

- Dod â gwasanaethau at bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio;
- Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws trwy gyfrwng gwasanaethau a seilwaith hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon; ac
- Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

Bydd gwelliannau i seilwaith teithio llesol yn ardal yr astudiaeth gyda Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cysylltu cymunedau yn uniongyrchol â rhwydwaith teithio llesol a fydd yn hyrwyddo cerdded/beicio ac yn annog symudiad i ffwrdd o ddefnyddio ceir preifat, a thuag at ddulliau mwy cynaliadwy.

Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu at y flaenoriaeth fyrdymor benodol ar gyfer teithio llesol, i 'ddatblygu rhwydwaith o lwybrau lleol yn barhaus ar gyfer cerdded a beicio i gysylltu pobl â'r lleoedd y maent yn teithio iddynt ar gyfer teithiau bob dydd.’

Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi pedwar uchelgais tymor hwy ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf, sy'n cysylltu'n agos â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yr uchelgeisiau yw cael system drafnidiaeth sydd:

- Yn dda i bobl a chymunedau;
- Yn dda i'r amgylchedd;
- Yn dda i'r economi a lleoedd yng Nghymru; ac
- Sy'n dda i ddiwylliant a'r Gymraeg.

Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn dda i bobl a chymunedau, a'r amgylchedd, trwy hyrwyddo dulliau teithio llesol yn lle trafnidiaeth fodur breifat at ddibenion teithio, yn ogystal â hyrwyddo gweithgarwch corfforol at ddibenion hamdden. Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cysylltu atyniadau a chymunedau twristaidd, gan hybu diwylliant Cymru. Bydd y llwybr yn creu buddion economaidd i'r rhanbarth gan gynyddu cyfleoedd am swyddi yn ogystal â darparu ffordd o gael mynediad cost-effeithiol i gyfleoedd gwaith newydd. Bydd yn cyfrannu at y Weledigaeth o gael system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon sy'n annog pobl i newid dulliau teithio.

8.3.11 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021)

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd tir yng Nghymru. Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy a gwella llesiant yng Nghymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ffurfio rhan o gyfres o ddogfennau sydd wrth wraidd y system gynllunio yng Nghymru ac sy'n hyrwyddo camau gweithredu ar bob lefel trwy gyfres o ganlyniadau Strategol a Gofodol, sef dewisiadau strategol a gofodol, lleoedd gweithredol a chymdeithasol, lleoedd cynhyrchiol a mentrus a lleoedd unigryw a naturiol.

Mae'n ofynnol hefyd i gynigion gael eu hasesu yn erbyn Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Creu a Chynnal Cymunedau;
- Tyfu ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy;
- Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau;
- Gwneud y mwyaf o Ddiogelu'r Amgylchedd a Chyfyngu ar yr Effaith ar yr Amgylchedd; a
- Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach.

Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn bodloni'r deilliannau a ddiffiniwyd trwy welliannau i deithio llesol wrth hyrwyddo lleoedd iachach, creu mannau hamdden a chyfleusterau cymunedol, hwyluso trafnidiaeth, twristiaeth, a seilwaith gwyrdd. Bydd hefyd yn helpu i alluogi cymunedau cynaliadwy trwy ddarparu'r dewis o deithio llesol ar gyfer teithiau yn Nyffryn Tywi.

8.3.12 Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru – Diweddariad (Rhagfyr 2021) (Dogfen Rhif 30)

Mae'r Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad (Rhagfyr 2021) yn ymgorffori'r Cytundeb Cydweithredu. Mae'r rhaglen yn nodi'r deg amcan llesiant y bydd y llywodraeth yn eu defnyddio i wneud y mwyaf o'i chyfraniad at saith nod llesiant hirdymor Cymru a'r camau y bydd yn cael eu cymryd i'w cyflawni.

Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu tuag at gyflawni nifer o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Drwy'r ddarpariaeth well o seilwaith teithio llesol, cysylltedd ag ysgolion, gofal iechyd, a gwasanaethau eraill, bydd y Llwybr Cyd-ddefnyddio yn helpu i greu cyfleoedd cyfartal ar gyfer grwpiau mwy o'r boblogaeth, yn ogystal â chefnogi economi fwy gwyrdd drwy symud ymlaen tuag at ddatgarboneiddio. Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn gwella 'bywiogrwydd' y trefi a'r cymunedau yn Nyffryn Tywi, gan wneud "dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru yn llefydd hyd yn oed yn well i fyw a gweithio ynddynt".

## 8.4 Polisïau a Strategaethau'r DU

8.4.1 Decarbonising Transport: A Better, Greener Britain (Gorffennaf 2021) (Dogfen Rhif 31)

Nod adroddiad Datgarboneiddio Trafnidiaeth yr Adran Drafnidiaeth yw lleihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol negyddol y system drafnidiaeth yn y DU. O ran cerdded a beicio, nod y cynllun yw gwneud 'trafnidiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded y dewis cyntaf naturiol i bawb sy'n gallu gwneud hynny', gan ganolbwyntio ar deithiau a chymudo byrrach. Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu at yr ymrwymiad isod:

- Byddwn yn gwireddu gweledigaeth feiddgar y Prif Weinidog ar gyfer beicio a cherdded gan fuddsoddi £2 biliwn dros bum mlynedd, gyda'r nod y bydd hanner yr holl deithiau mewn trefi a dinasoedd ar feic neu ar droed erbyn 2030.

Er mwyn cyflawni ei ymrwymiadau, mae'r adroddiad Datgarboneiddio Trafnidiaeth yn nodi 6 blaenoriaeth strategol. Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cyfrannu tuag at y flaenoriaeth strategol gyntaf a nodir yn y cynllun, gan gyflymu'r newid mewn dulliau teithio i

drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, gyda'r nod o gynyddu'r gyfran o deithiau a wneir trwy feicio a cherdded ar gyfer teithiau a chymudo byr.

## 9 YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL AC UNRHYW YSTYRIAETHAU ERAILL

### 9.1 Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae Adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn gwahardd awdurdodau lleol rhag gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'n bosibl y bydd nifer o hawliau'r confensiwn yn berthnasol yn y broses o lunio ac ystyried y Gorchymyn, yn cynnwys y rheiny o dan Erthyglau 6, 8 ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf.

Mae Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf yn dweud bod rhaid ystyried y cydbwysedd teg y mae gofyn ei daro rhwng buddiannau'r unigolyn a buddiannau'r gymuned gyfan. Felly, rhaid i bwerau prynu gorfodol fod yn gymesur. Rhaid ystyried buddiannau cyhoeddus a phreifat wrth arfer pwerau a dyletswyddau'r Cyngor fel Awdurdod Priffyrdd Lleol. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw ymyrryd â hawliau Erthygl 8 fod yn "angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd" – mae hynny'n golygu bod rhaid i'r ymyrryd fod yn gymesur. Mae'r Cyngor o'r farn ei fod, wrth geisio'r Gorchymyn hwn, wedi ystyried yn ofalus y cydbwysedd y mae gofyn ei daro rhwng hawliau unigolion a'r budd cyhoeddus ehangach. Credir bod cyfiawnhad dros ymyrryd â hawliau'r Confensiwn, os oes ymyrryd, er mwyn sicrhau'r adfywio economaidd a'r manteision cyhoeddus a ddaw yn sgil y Cynllun ac i sicrhau cydymffurfio â pholisi cynllunio.

Hawl i wrandawiad teg a chyhoeddus wrth benderfynu ar hawliau sifil a gwleidyddol person (y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Erthygl 6). Mae hyn yn cynnwys hawliau eiddo a gall gynnwys cyfleoedd i gael gwrandawiad yn y broses ymgynghori. Mae'r gweithdrefnau statudol, ynghyd â'r hawl i wrthwynebu a chael adolygiad barnwrol, yn bodloni gofynion Erthygl 6.

Hawl i barch tuag at fywyd preifat a theuluol a'r cartref. Gellir cyfyngu ar yr hawliau hyn os yw'r tramgwyddo yn unol â'r gyfraith, bod iddo nod dilys a'i fod yn deg a chymesur er budd y cyhoedd (Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Erthygl 8). Credir y byddai unrhyw ymyrryd o'r fath a allai ddigwydd o ganlyniad i'r Gorchymyn yn unol â'r gyfraith, y byddai iddo nod dilys ac y byddai'n gymesur wrth ystyried budd cyhoeddus yn y Cynllun y mae'r Datganiad hwn yn cyfeirio ato.

Mwynhad tawel o feddiannau (yn cynnwys eiddo). Nid yw hyn yn amharu ar yr hawl i orfodi'r cyfryw ddeddfau ag sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol gan y Wladwriaeth i reoli'r defnydd o eiddo yn unol â'r budd cyffredinol (y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf). Credir y bydd y Gorchymyn yn taro cydbwysedd teg rhwng y budd cyhoeddus wrth weithredu'r Gorchymyn a'r hawliau preifat hynny y bydd y Gorchymyn yn effeithio arnynt. Bydd iawndal ar gael o dan y cod iawndal i'r rhai sy'n gallu profi bod ganddynt hawliad dilys yn deillio o arfer pwerau prynu gorfodol.

### 9.2 Deddf Cydraddoldeb 2021

Er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, cynhaliwyd Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) yn 2019, a ddaeth i'r casgliad na fydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Diweddarwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn 2021.

Ystyriwyd yr effaith ar ystod o grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig:

- Oedran – Nod Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yw lleihau anafiadau traffig ar y ffyrdd ymhlith defnyddwyr llai profiadol ac agored i niwed, gan gynnwys pobl ifanc a grwpiau oedrannus. Bydd creu amgylchedd mwy diogel yn cynyddu gweithgarwch cerdded a beicio ym mhob grŵp oedran, a fydd yn arwain at fanteision iechyd corfforol, gan gynnwys gwell iechyd meddwl. Mwy o annibyniaeth teithio i bobl hŷn a

phobl iau fel ei gilydd yn sgil opsiwn trafnidiaeth mwy diogel a chost-effeithiol nad yw'n dibynnu ar y gallu i yrru.

- Anabledd - Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn lleihau anafiadau traffig ar y ffyrdd ymhlith defnyddwyr llai profiadol ac agored i niwed, gan gynnwys y rheiny sydd ag anabledd. Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn hygyrch i'r rheiny sydd ag anabledd a bydd yn cynnwys yr holl nodweddion dylunio sy'n berthnasol i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi wedi'i ddylunio i Safonau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, sy'n ystyried anghenion pob grŵp o ddefnyddwyr. Bydd Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn caniatáu mynediad i gefn gwlad, cyfleusterau canol trefi ac atyniadau twristiaeth ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr ag anableddau, a all fod ar hyn o bryd ond yn hygyrch mewn car.
- Ailbennu Rhywedd – Annhebygol o gael effaith negyddol a nodwyd.
- Hil - Mae tystiolaeth gan Natural England yn awgrymu nad yw rhai pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol erioed wedi bod i gefn gwlad a'u bod yn teimlo nad oes ganddynt hawl i fod yno. Mae'r llwybr yn rhoi mynediad am ddim i gefn gwlad i bawb ac yn gyfle i gymunedau lleiafrifoedd ethnig gyfranogi o'r amgylchedd naturiol.
- Crefydd/Cred - Annhebygol o gael effaith negyddol a nodwyd.
- Beichiogrwydd a mamolaeth - Bydd amgylchedd gwell i gerddwyr/beicwyr yn cynyddu symudedd i bawb, gan gynnwys menywod beichiog a'r rheiny sydd â phlant ifanc. Mwy o annibyniaeth teithio ar gyfer menywod beichiog a'r rheiny sydd â phlant ifanc gan fod Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cynnig dewis arall cost-effeithiol ar gyfer teithio, yn enwedig i'r rheiny sydd heb fynediad i gar.
- Cyfeiriadedd Rhywiol - Annhebygol o gael effaith negyddol a nodwyd.
- Rhyw – Mae data Arolwg Sustrans yn dynodi bod modd i fenywod gael eu tangynrychioli mewn gweithgarwch beicio. Mae Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy ddarparu llwybr diogel i'w ddefnyddio gan bawb. Gall rhai rhannau o'r llwybr oddi ar y ffordd deimlo'n anghysbell, gan beri bod rhai grwpiau defnyddwyr yn teimlo'n agored i niwed. Er mwyn mynd i'r afael â hyn bydd yr holl nodweddion dylunio diogelwch a diogeledd perthnasol yn cael eu cynnwys.
- Y Gymraeg - Bydd yr holl gyhoeddusrwydd, deunydd hysbysebu a deunydd dehongli a ddatblygir fel rhan o brosiect Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog gan felly hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg.

Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn argymell unrhyw fesurau ffurfiol mewn ymateb i unrhyw effeithiau negyddol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau mewnbwn y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig mae sawl grŵp e.e. Grŵp Mynediad Pobl Anabl Sir Gaerfyrddin, Cynghrair Anabledd Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gweithredu, wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiadau i randdeiliaid. Bydd yr ymgysylltu hwn trwy gyfrwng gweithdai, arolygon ac ati yn parhau wrth i'r project ddatblygu i sicrhau bod y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynrychioli.

## 10 YSTYRIAETHAU ARBENNIG

Nid oes adeiladau rhestredig na henebion cofrestredig wedi'u lleoli o fewn ffiniau Tir yr Gorchymyn ac nid oes unrhyw ran o Dir yr Gorchymyn wedi'i leoli gydag ardal gadwraeth er bod asedau o fewn yr ardal astudiaeth ehangach a ystyrir yn y Datganiad Amgylcheddol sy'n cefnogi PL/05353. Does gan CADW ddim gwrthwynebiad i gais PL/05353. Mae Afon Tywi yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac er y bydd pont yn croesi'r afon mewn un lleoliad ni ddisgwylir i unrhyw waith gael ei wneud yno. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â chategorïau arbennig o dir a ddiffinnir yn Rhan 3 ac Atodlen 3 Deddf 1981 o safbwynt tir y goron neu ardaloedd adnewyddu o fewn Tir y Gorchymyn.

## 11 YMGYMERWYR STATUDOL

Lle mae trefniadau'r Cynllun yn effeithio ar gyfarpar ymgymerwyr statudol, gwneir ymdrechion i warchod neu ddargyfeirio'r cyfarpar o dan ddarpariaethau Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Cafwyd manylion ar gyfarpar ymgymerwyr statudol drwy wneud chwiliadau cyfleustodau a hawliadau gwybodaeth statudol gan gynnwys Western Power Distribution, Openreach Limited, Mainline Pipelines Limited, Dŵr Cymru Welsh Water, Wales and West Utilities a'r National Grid plc. Gall y sefydliadau hyn gysylltu â'r Cyngor drwy ysgrifennu at Sam Palmer, Adran yr Amgylchedd, Bloc 2, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ

## 12 MATERION IAWNDAL

Gwneir darpariaeth drwy statud o ran iawndal am brynu tir yn orfodol ac am y dibrisio ar werth eiddo yr effeithir arno. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn y gyfres o lyfrynnau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'u rhestru isod:

(a) Llyfryn 1 – Eich cartref a phrynu gorfodol
(b) Llyfryn 2 - Eich cartref a niwsans o ddatblygiad cyhoeddus
Llyfryn 3 – Eich busnes a datblygiad cyhoeddus
(d) Llyfryn 4 – Y ffermwr a datblygiad cyhoeddus
(e) Llyfryn 5 – Insiwleiddio rhag sŵn traffig

Gellir cael copïau o'r llyfrynnau hyn oddi wrth Lywodraeth Cymru neu gellir eu gweld ar-lein ar https://gov.wales/topics/transport/roads/land-acquisition-compensation/?skip=1&lang=cy

Gellir cyfeirio ceisiadau penodol mewn perthynas â'r cynllun hwn at Mr Hywel Humphreys, yr Adran Datblygu Economaidd yn Neuadd y Sir, Rhiw'r Castell, Caerfyrddin, SA31 1JP

## 13 CRYNODEB

Byddai Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn gyfle unigryw i ddarparu ffurf o drafnidiaeth gost effeithiol a chynaliadwy i gymunedau yn Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt gael mynediad at swyddi, gwasanaethau ac addysg. Byddai'n darparu mynediad i amrywiaeth o deithiau cyfleustodau (i ysgolion, lleoedd gwaith ac ati) ynghyd â theithiau hamdden a thwristiaeth a theithiau i helpu i hyrwyddo llesiant unigolion.

Gyda hyn daw'r posibilrwydd gwirioneddol a phendant o sicrhau buddion llesiant yn y dyfodol (y rheiny a ddiffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r rheiny a amlinellir yn Rhan 2 Adran A o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 003/019). Fodd bynnag, mae sicrhau'r buddion llesiant hyn yn dibynnu ar lwyddiant y Gorchymyn i sicrhau'r hawl i wireddu'r cynllun a ariennir er budd y cyhoedd yn ehangach. Heb y Gorchymyn, ni ellir gwireddu'r llwybr cyd-ddefnyddio, ac ni fydd y buddion llesiant yn cael eu sicrhau ar gyfer y gymuned leol a defnyddwyr Llwybr Cyd-ddefnyddio arfaethedig Dyffryn Tywi yn y dyfodol. Ceir achos cryf er budd y cyhoedd dros gadarnhau'r Gorchymyn yn gynnar.

## 14 Y GORCHYMYN, MAP Y GORCHYMYN A DATGANIAD O RESYMAU

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn, Map y Gorchymyn a Datganiad o Resymau yn rhad ac am ddim yn:

- Hwb Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn Rhodfa'r Santes Catrin, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin,
- Llyfrgell Caerfyrddin, Heol San Pedr, Caerfyrddin,
- Llyfrgell Llandeilo, Heol Cilgant, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, a

- Gellir ei weld ar-lein yn https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/datblygu-a-buddsoddiad/llwybr-dyffryn-tywi/

## 15 GWRTHWYNEBU NEU GEFNOGI’R GORCHYMYN PRYNU GORFODOL

Gall unrhyw berson sy'n dymuno cefnogi neu wrthwynebu, neu gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r Gorchymyn wneud hynny drwy ysgrifennu at:
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
Os bydd partïon â diddordeb am gefnogi neu wrthwynebu'r Cynllun a'r Gorchymyn, yna bydd y Cyngor yn ystyried gohebiaeth a gallai fod angen iddo ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i'r Cyngor. Fel rhan o'r broses hon gall y Cyngor drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth y gallai partïon sydd â diddordeb fod wedi ei rhoi, gan gynnwys data personol. Bydd y Cyngor yn datgelu manylion personol dim ond lle mae angen gwneud hynny er mwyn delio â materion a ddygir i'w sylw.
Os nad yw partïon â diddordeb yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd partïon, dylent nodi pam wrth gyflwyno gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partïon priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi'u dileu.

Gellir cyfeirio ymholiadau penodol mewn perthynas â'r cynllun hwn at Mr Samuel E Palmer, Adran yr Amgylchedd, Bloc 2, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ

## 16 YMCHWILIAD LLEOL CYHOEDDUS

Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliad
Nid yw’r Datganiad o Resymau hwn o blaid gwneud y Gorchymyn wedi’i fwriadu i gyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor o dan Reolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010 pe bai Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus yn cael ei gynnal.

Dogfennau
Pe bai'r Gorchymyn yn dod yn destun ymchwiliad cyhoeddus, bydd gohebiaeth yn cael ei gweld gan arolygydd. Bydd pob gohebiaeth yn cael ei chadw mewn llyfrgell ymchwiliad cyhoeddus a bydd ar gael i'r cyhoedd. Pe cynhelid Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus bwriad y Cyngor fyddai cyfeirio at y dogfennau canlynol neu eu cyflwyno fel tystiolaeth, a fyddai ar gael i'w gweld a'u harchwilio ar adeg benodol ac mewn lle penodol. Nid yw’r rhestr wedi’i bwriadu i fod yn gynhwysfawr a gallai’r Cyngor gyfeirio at neu gyflwyno dogfennau pellach fel tystiolaeth.

## DOGFENNAU

1. Coridor Trafnidiaeth Dyffryn Tywi - Arfarniad Opsiwn WelTAG (WelTAG Cam 1, Awst 2013)
2. Llwybr Dyffryn Tywi - Adroddiad Terfynol WelTAG Cam 2 Chwefror 2021
3. Astudiaeth Dichonoldeb Coridor Trafnidiaeth Dyffryn Tywi Ionawr 2014
4. Llwybr Dyffryn Tywi - Adroddiad Asesu Effaith Terfynol WelTAG Cam 2 Chwefror 2021
5. Llwybr Dyffryn Tywi, Canlyniadau Llesiant Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llwybr Cyd-ddefnyddio Arfaethedig, Hydref 2022
6. Llwybr Dyffryn Tywi, Achos Busnes – Diweddariad 2022, WSP
7. Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2 (2021–25)
8. Cynllun Trefniant Cyffredinol
9. Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Gaerfyrddin 2006-2021

10. Rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer Cais Cyf. W/34225, E/37932 ac W/39127
11. Cymru’r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)
12. Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021)
13. Datganiad Amgylcheddol
14. Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: Y Sir Gâr a Garem 2018 – 2023
15. Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf (2018)
16. Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin, 2018 – 2023 (diweddarwyd ym mis Ebrill 2021)
17. Sir Gaerfyrddin: Canolbwynt Beicio Cymru - Strategaeth Feicio (2018)
18. Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen (2019)
19. Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin (ROWIP) 2019 – 2029
20. Cynllun adfywio strategol Sir Gaerfyrddin 2015-2030 - Trawsnewidiadau
21. Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013-2030
22. Cydgynllun Trafnidiaeth De-orllewin Cymru 2015-2020
23. Strategaeth Feicio Ranbarthol De-orllewin Cymru (2020)
24. Strategaeth Feicio Cymru
25. Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru, 2016
26. Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, 2019
27. Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025
28. Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (2020)
29. Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)
30. Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru – Diweddariad (Rhagfyr 2021)
31. Decarbonising Transport: A Better, Greener Britain (July 2021)